Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**2.30 y.h., DYDD GWENER, 13EG MEHEFIN, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni***


Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan - Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Gary Pritchard - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubury - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Dave Hughes - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Nia Jeffreys - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Edgar Wyn Owen – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Rhun ap Gareth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Alwyn Jones – Prif Weithredwr Dros Dro - Cyngor Wrecsam
Jonathan Cawley – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Alwen Williams - Prif Weithredwr Dros Dro y Cyd-Bwyllgor
Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025-2026.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025-2026.

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 21 Mawrth 2025 fel rhai cywir.

## 7. CALENDR CYFARFODYDD — 12 - 14

Iwan Evans, Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad.

## 8. CYFETHOL AELODAETH I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG — 15 - 18

Iwan Evans, Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad.

## 9. DIWEDDARIAD RHAGLEN WEITHREDU ÔL-DROSGLWYDDO'R CBC 2025-26 — 19 - 22

Iwan Evans, Swyddog Monitro a David Hole, Arweinydd Rhaglen Weithredu'r CBC i gyflwyno'r adroddiad.

**10. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM** 23 - 37

Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro ac Iain Taylor, AMION Consulting i gyflwyno'r adroddiad.

**11. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF BUEGC AR GYFER 2024/25** 38 - 47

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.

**12. ADRODDIAD ALLDRO A FFURFLEN FLYNYDDOL CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU 2024/25** 48 - 58

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.

**13. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26** 59 - 67

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.

**14. POLISI TAL 2025/26** 68 - 73

Eurig Huw Williams, HR Service Manager to present the report.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**21/03/25**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Owen (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion:** Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Jenny Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Linda Roberts (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) a Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddogion Statudol**
Iwan Evans (Swyddog Monitro).

**Swyddogion eraill yn bresennol**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC), Hedd Vaughan Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol), Claire Incledon (Cyfreithiwr), Dave Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig), Geraint Owen (Cyngor Gwynedd) a Jack Latkovic (Swyddog Democratiaeth Cydbwyllgor Corfforedig).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych)
- Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda Linda Roberts yn dirprwyo
- Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gyda Jenny Williams yn dirprwyo
- Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Alwen Williams ar gyfer Eitem 10 oherwydd ei phenodiad fel Prif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Nodwyd ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2025 fel rhai cywir.

**5. TROSGLWYDDO'R BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD A'R CYNLLUN TWF I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Brif Weithredwr Dros Dro'r CBC a'r Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Cytuno i ymrwymo i Gytundeb Cyflawni ac Ariannu ble trosglwyddir rôl corff Cyfrifol, cyfrifoldeb am gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r trefniadau ariannu ar gyfer y Cynllun Twf i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar neu cyn 31 Mawrth, 2025.**

2. **Cytuno i amnewid ac aseinio yn ôl yr angen, cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r hawliau a'r rhwymedigaethau ym mhob cytundeb ariannu sy'n dod i mewn a ddelir gan Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran trosglwyddiad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar neu cyn 31 Mawrth, 2025.**

3. **Cytuno i drosglwyddo, amnewid ac/neu aseinio'r holl fuddiannau ym mhortffolio prosiectau a ariennir gan Gynllun Twf Gogledd Cymru ynghyd ag unrhyw gytundebau taliadau a phrydlesi ategol gan Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar neu cyn 31 Mawrth, 2025.**

4. **Cytuno i drosglwyddo a/neu aseinio'r holl falansau ariannol, arian sy'n ddyledus ac asedau fel a ddelir ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan Gyngor Gwynedd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar neu cyn 31 Mawrth, 2025.**

5. **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr Dros Dro, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, i gytuno a gweithredu'r cytundebau, gweithredoedd a'r holl ddogfennau cyfreithiol terfynol eraill sy'n angenrheidiol i weithredu'r trosglwyddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 1, 2 a 3 uchod erbyn neu cyn 31 Mawrth, 2025.**

6. **Cytuno i drosglwyddo atebolrwydd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a bod y Cyd-bwyllgor yn derbyn cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru yn amodol ar amnewid y Cynllun Twf a chymeradwyo Rheolau Sefydlog ychwanegol sy'n ymgorffori telerau allweddol y Cytundeb Cyd-weithio rhwng y 6 Cyngor Cyfansoddiadol a'r 4 parti Addysg.**

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr Aelodau mai'r dyddiad a benodwyd ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yw 1 Ebrill 2025. Cadarnhawyd bod gweithdrefnau pob Awdurdod Lleol perthnasol wedi cymeradwyo'r trosglwyddiad gan nodi bod yr Adroddiad yn manylu ar y camau sydd angen eu cyflawni er mwyn ei gwblhau'n amserol.

Eglurwyd bod y Cyd-bwyllgor ar drothwy derbyn cytundeb gan bartneriaid y Cynllun Twf ar gyfer y trosglwyddiad hwn.

Nodwyd bod oediad wedi bod yn y trefniadau er mwyn derbyn cytundeb gan Lywodraeth Cymru i ryddhau Cyngor Gwynedd o gyfrifoldebau a'r cytundeb ariannu'r Cynllun Twf gan ganiatáu i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd fod yn gyfrifol ohono o 1 Ebrill 2025. Pwysleisiwyd bod y cytundeb hwn yn un creiddiol i'r trosglwyddiad. Tynnwyd sylw bod

cytundeb drafft wedi cael ei anfon i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2025. Mynegwyd balchder bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ar 21 Mawrth 2025, yn dilyn trafodaethau maith, bod y cytundeb hwn yn dderbyniol ar gyfer cyflawni'r trosglwyddiad. Cynghorwyd y gallai'r Cyd-bwyllgor ganiatáu'r trosglwyddiad, yn ddibynnol ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru y bydd swyddogion yn derbyn cytundeb i'w arwyddo erbyn 25 Mawrth 2025, er mwyn sicrhau bod yr amserlen arfaethedig yn cael ei lynnu ato.

Amlygwyd bod y penderfyniadau a nodwyd o fewn yr Adroddiad yn cyfeirio at ddirwyn swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ben ar 31 Mawrth 2025. Ymhelaethwyd bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ysgwyddo baich y swyddogaethau hynny o 1 Ebrill 2025.

Diolchwyd i'r holl swyddogion am eu gwaith er mwyn ymdrechu i sicrhau bod popeth yn ei le ar gyfer y trosglwyddiad hwn yn amserol, gan ddiolch hefyd am gydweithrediad Llywodraeth Cymru ar y mater.

## 6. IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo penodi cynrychiolwyr o bob sefydliad partner yn Aelodau cyfetholedig (heb bleidlais) i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.**

2. **Cadarnhau aelodaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd fel y nodir yn y tabl isod:**

| | IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD | |
|---|---|---|
| Cyngor | Aelod sy'n Gynghorydd | Aelodau gyda Phleidlais |
| Gwynedd | Y Cynghorydd Nia Jeffreys | Cymeradwywyd gan y CBC ym mis Medi 2024 |
| Conwy | Y Cynghorydd Charlie McCoubrey | |
| Wrecsam | Y Cynghorydd Mark Pritchard | |
| Ynys Môn | Y Cynghorydd Gary Pritchard | |
| Sir Ddinbych | Y Cynghorydd Jason McLellan | |
| Sir y Fflint | Y Cynghorydd Dave Hughes | |
| | Aelodau Cyfetholedig | Aelodau heb bleidlais |
| Prifysgol Bangor | Yr Athro Edmund Burke<br><br>Paul Spencer (eilydd) | Cyfetholwyd am gyfnod o ddwy flynedd hyd at 1 Ebrill 2027 |
| Prifysgol Wrecsam | Yr Athro Joe Yates<br><br>Richard Day (eilydd) | |
| Grŵp Llandrillo Menai | Aled Jones-Griffiths<br><br>Gwenllian Roberts (eilydd) | |
| Coleg Cambria | Yana Williams<br><br>Steve Jackson (eilydd) | |
| Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol | David Roberts | |
| Cadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol | I'W GADARNHAU | |
| Parc Cenedlaethol Eryri | I'W GADARNHAU | |

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan nodi ei fod yn cadarnhau aelodaeth Is-bwyllgor Lles Economaidd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Ymhelaethwyd bod sefydlu'r Is-bwyllgor hwn yn allweddol er mwyn cefnogi trosglwyddiad y Cynllun Twf i'r Cyd-bwyllgor a chymryd rheolaeth o swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Cywirwyd yr aelodaeth i gynrychiolaeth Prifysgol Wrecsam gan nodi mai Mr Moss Garde yw'r eilydd yn y Cytundeb Cyfethol.

Tynnwyd sylw bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn sefydlu'r Is-bwyllgor hwn i fod o'r un natur a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ac felly cadarnhawyd bod pob Aelod Cyfetholedig yn Aelodau di-bleidlais. Amlygwyd bod yr Aelodau Cyfetholedig a nodwyd o fewn yr adroddiad eisoes yn aelodau o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd fel ymgynghorwyr.

Eglurwyd bydd Adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod nesaf, er mwyn rhannu gwybodaeth ar drefniadau materion cyfetholedig gan gynnwys hawliau pleidleisio, er eglurder.

**7. BWRDD BUSNES YMGYNGHOROL AC YMGYNGHORWYR ANWEITHREDOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl a'r broses benodi ar gyfer sefydlu Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd ar ôl trosglwyddo'r Cynllun Twf a dirprwyo'r broses weithredu i'r Prif Weithredwr Dros Dro.**

2. **Cymeradwyo'r disgrifiad rôl ar gyfer y ddwy swydd Ymgynghorydd Anweithredol newydd ac awdurdodi'r Prif Weithredwr Dros Dro i gymryd pob cam angenrheidiol i gaffael ymgeiswyr i'w hargymell i'w penodi i Is-bwyllgor Lles Economaidd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.**

3. **Dirprwyo i'r Prif Weithredwr Dros Dro, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yr awdurdod i wneud unrhyw fân newidiadau i'r Cylch Gorchwyl a disgrifiadau rôl mewn ymateb i unrhyw adborth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a'r DU cyn ei weithredu.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl corff ymgynghori sector preifat newydd (Bwrdd Busnes Ymgynghorol) yn ogystal â disgrifiadau rôl ar gyfer dau Ymgynghorydd Anweithredol newydd. Eglurwyd bod datblygu'r rhain yn sicrhau bod gweithdrefnau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cyfarch yr hyn sydd yn ddisgwyliedig er mwyn gweithredu'r Cynllun Twf. Ychwanegwyd bod cyflwyno'r rhain hefyd yn ymateb i argymhellion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o benodi ymgynghorwyr anweithredol.

Cadarnhawyd bod swyddogion wedi derbyn cyngor cyfreithiol ar y model ar gyfer penodi ymgynghorwyr anweithredol a nodwyd bod trefniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn seiliedig ar ofynion cyfreithiol llywodraeth leol ar gyfer unigolion sydd o fewn swyddogaeth ac yn derbyn tâl am wasanaethau.

Ystyriwyd pecyn cyflogaeth yr ymgynghorwyr anweithredol gan holi os oes ystyriaeth yn cael ei roi i ffi ddyddiol am eu gwasanaethau. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro bod gwaith wedi cael ei wneud er mwyn canfod graddfa gyflog ddyddiol ar gyfer natur y gwasanaeth ymgynghori priodol. Eglurwyd bod ystod eang o drefniadau cyflogaeth ymgynghorol a'u bod yn amrywiol iawn. Cadarnhawyd bydd cyflogau am wasanaethau ymgynghorol dyddiol yn cael eu pennu wrth i'r Cyd-bwyllgor lwyddo i fireinio'r math o ymgynghoriaeth sydd ei angen.

Mewn ymateb i ystyriaethau os bydd gofyniad i'r ymgynghorwyr anweithredol fod yn meddu â sgiliau ieithyddol Cymraeg er mwyn cael eu penodi, cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro bod yr iaith Gymraeg yn hollbwysig i waith y Cyd-bwyllgor gan gadarnhau bydd pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn ceisio canfod ymgynghorwyr sy'n medru'r Gymraeg er mwyn cynorthwyo gwaith y Cyd-bwyllgor. Fodd bynnag, nodwyd yr angen rhoi ystyriaeth i unrhyw gais er mwyn cysidro a fyddai'r lefel gywir o gyngor yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol er mwyn llywio penderfyniadau o werth i'r rhanbarth. Cadarnhawyd y bydd y rolau hyn yn cael eu hysbysebu i nodi bod sgiliau'r iaith Gymraeg yn ddelfrydol ond nid yw'n angenrheidiol.

**8. RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Mabwysiadu'r newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contract a bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.**

2. **Dirprwyo i'r Swyddog Monitro y pŵer i wneud y mân addasiadau canlynol i'r Cyfansoddiad:**
   a. **Diwygiadau cyfreithiol neu dechnegol nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar y Cyfansoddiad.**
   b. **Newidiadau y mae'n ofynnol eu gwneud i gael gwared ag unrhyw anghysondeb, amwysedd neu wall teipograffeg**
   c. **Geiriad er mwyn i unrhyw benderfyniad gan Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd neu ei is-bwyllgorau neu swyddog sy'n arfer pwerau dirprwyedig ddod i rym.**
   d. **Newidiadau sy'n ofynnol i adlewyrchu unrhyw newidiadau i deitlau swyddi neu rôl**

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod trefniadau wedi cael ei diwygio yn dilyn dyfodiad Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Cyflwynwyd rheoliadau diwygiedig o drefniadau caffael ar gyfer gweithrediadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Diolchwyd am y cydweithrediad rhanbarthol ac arbenigol er mwyn sicrhau bod y ddogfennaeth yn cael eu diwygio i fod yn gyfredol yn unol â'r gofynion cyfreithiol.

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitem 10 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau busnes cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a chytuno trefniadau penodi gan gynnwys manylion swydd ac amodau a thelerau cyflog fydd yn destun proses recriwtio gystadleuol. Nodaf hefyd y bydd y wybodaeth a gytunir yn cael ei gyhoeddi fel rhan o broses benodi agored. Gall cyhoeddi gwybodaeth drafft yma yn gynamserol danseilio'r broses recriwtio. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau yma rwy'n fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

**10. PENODI PRIF WEITHREDWR AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Cytuno i sefydlu swydd Prif Weithredwr ar sail llawn amser parhaol ar gyflog blynyddol o hyd at £125,000.**

2. **Awdurdodi cychwyn proses recriwtio i benodi Prif Weithredwr.**

3. **Mai Cymraeg yn 'ddymunol', gan sicrhau ymrywymiad gan yr ymgeisydd llwyddiannus i ddysgu'r iaith (os nad yw eisoes yn medru'r Gymraeg) fydd dynodiad iaith y swydd o fewn y Manylion Person.**

4. **Cadarnhau bod y trefniadau dros-dro presennol yng nghyswllt cyflawni swyddogaethau Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig a Cyfarwyddwr Portffolio y Cynllun Twf yn cael eu hymestyn hyd nes bod Prif Weithredwr parhaol yn gallu ymgymryd a'i g/chyfrifoldebau.**

5. **Cadarnhau bod cynnal y broses recriwtio, gan gynnwys yr hysbysebu, yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr arweiniol, mewn ymgynghoriaeth gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.**

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 13:55.

____________________________________
(Cadeirydd)

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

13 Mehefin 2025

TEITL: Calendr Cyfarfodydd

AWDUR: Iwan Evans, Swyddog Monitro

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1. Cymeradwyo'r calendr drafft ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mehefin 2026 (***Atodiad 1***).

**2. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD**

2.1. Yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig benderfynu ar amlder ei gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn gyngor ganlynol.

**3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

3.1. Y Cyd-bwyllgor Corfforedig sydd i benderfynu ar nifer a pha mor aml y cynhelir cyfarfodydd. I ganiatáu gweithredu swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn effeithiol ac yn effeithlon ac i sicrhau tryloywder ei benderfyniadau, mae'r Canllawiau Statudol yn nodi y dylai cyfarfodydd fod yn ddigon aml, a hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad ei Aelodau a'r cyhoedd yn ei waith.

3.2. Mae'r calendr yn dangos amlder a rhyngweithio y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i is-bwyllgorau.

3.2. Mae cyfarfodydd arfaethedig y CBC (yn dechrau am 13:30) fel a ganlyn:

- 18 Gorffennaf 2025
- 19 Medi
- 28 Tachwedd
- 23 Ionawr (cyllideb)
- 20 Mawrth
- 19 Mehefin (CCB)

3.3. Yr argymhelliad yw bod y CBC yn cymeradwyo'r calendr drafft.

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Calendr drafft hyd at fis Mehefin 2026



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mewn perthynas â materion ariannol, mae'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd perthnasol yn caniatáu i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gydymffurfio ag amserlenni adrodd ariannol."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD
CALENDR CYFARFODYDD 2025 - 2026

| Pwyllgor | Diwrnod Cyfarfod Arferol | MEH | GORFF | AWST | MEDI | HYD | TACH | RHAG | ION | CHWE | MAW | EBR | MAI | MEH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyd-bwyllgor Corfforedig | Dydd Gwener am 13:30 | 13 14:30 | 18 | | 19 | | 28 | | 23 | | 20 | | | 19 |
| Is-bwyllgor Lles Economaidd | Dydd Gwener am 09:30 | | 11 | | | 3 | 7 | 5 | | 6 | 13 | | 8 | 12 |
| Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol | Dydd Llun am 14:00 | 30 | | | | 6 | | 15 | | | 23 | | | |
| Is-bwyllgor Cynllunio Strategol | Dydd Llun am 14:00 (i'w gadarnhau) | | | | 9 | | | | 26 | | 9 | | | |
| Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | i'w gadarnhau | | | | | | | | | | | | | |
| Is-bwyllgor Safonau | i'w gadarnhau | | | | | | | | | | | | | |
| Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu | i'w gadarnhau | | | | | | | | | | | | | |



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

13 Mehefin, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cyfethol aelodaeth i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig |
| AWDUR: | Iwan Evans, Swyddog Monitro |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cytuno fel a ganlyn:

(i) Bod y Swyddog Monitro yn adolygu egwyddorion cyfethol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i is-bwyllgorau fel y nodir yn y Rheoliadau Sefydlu (fel y'u diwygiwyd) a'r canllawiau statudol.

(ii) Bod yr adolygiad yn cynnwys ymgynghori â'r pedwar darparwr Addysg Uwch ac Addysg Bellach mewn perthynas â'u haelodaeth ar yr is-bwyllgor Lles Economaidd i'w adrodd i gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y dyfodol.

(iii) Mewn perthynas â llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y dyfodol, y rhoddir ystyriaeth i'r opsiynau ynghylch creu aelodaeth ymgynghorol neu grwpiau cyswllt rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur, y Trydydd Sector, Cymdeithasau Tai, y sector preifat ac iechyd, ac y byddai'r telerau hyn yn darparu ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chydweithio wrth gefnogi gwneud penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

(iv) Bod yr adolygiad yn cael ei gynnal mewn ymgynghoriad ag Aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a Phrif Weithredwyr yr Awdurdodau Cyfansoddol gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gydag argymhelliad ynghylch y model ar gyfer cyfethol.

## 2. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

2.1. Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys y chwe Aelod Cyngor, Aelod Eryri ac unrhyw aelod cyfetholedig. Ar hyn o bryd mae 6 arweinydd y cynghorau cyfansoddol a Chadeirydd Eryri yn ffurfio aelodaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ymhellach i reoliad 9 o'r Rheoliadau Sefydlu, caiff y Cyd-bwyllgor Corfforedig gyfethol unigolion fel aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar y telerau y mae'n eu penderfynu.

2.2. Mae'r partneriaid Addysg Bellach ac Uwch wedi gofyn i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig adolygu'r safbwynt ar unrhyw hawl i bleidleisio mewn perthynas â'u cyfethol i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.

3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1. Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu bod aelodaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys y chwe aelod Cyngor, yr Aelod Eryri ac unrhyw aelod cyfetholedig. Ar hyn o bryd mae'r aelodaeth yn cynnwys Arweinyddion pob Cyngor a Chadeirydd Parc Cenedlaethol Eryri, sy'n gweithredu fel aelod mewn perthynas â'r swyddogaeth cynllunio strategol a'r swyddogaethau hynny sy'n ategol neu'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig bŵer i gyfethol unigolion fel aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar y telerau y mae'n eu penderfynu. Hyd yma, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cyfethol aelodau i'w is-bwyllgorau trafnidiaeth a chynllunio strategol, yr is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'i is-bwyllgor Lles Economaidd.

3.2. Mae canllawiau statudol yn nodi:

"4.1 Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n effeithiol, bydd angen i Gydbwyllgorau Corfforedig gynnwys eraill yn weithredol yn eu gwaith, a bydd disgwyl iddynt wneud hynny. Bydd yn bwysig bod pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn creu diwylliant cynhwysol a chydweithredol i sicrhau persbectif a dull gweithredu ehangach ar gyfer ei waith. Bydd pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn gan ystyried ei amgylchiadau unigryw ei hun.

4.2 Mae'r rheoliadau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt i ymgysylltu â phobl eraill a'u cynnwys yn eu gwaith drwy gyfethol (gweler Rheoliad 9 o'r Rheoliadau Sefydlu). Mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd penderfynu pwy sy'n cael ei gyfethol a sut y cânt eu cyfethol (telerau'r cyfethol). Mewn rhai achosion, gall aelodau hefyd alluogi aelodau cyfetholedig i bleidleisio ar faterion o'r fath. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr aelodau cyngor fydd yn penderfynu oni bai fod a wnelo mater ag arfer y swyddogaethau yn Rheoliad 13 o'r Rheoliadau Sefydlu ac, os felly, bydd penderfyniadau o'r fath yn cynnwys yr aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol.

4.3 Dyma fanteision cyfethol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig:
- cryfhau ehangder y profiad a'r sgiliau sydd ar gael i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig
- galluogi mewnbwn lleol neu ddarparu ar gyfer cynrychiolaeth leol
- darparu arbenigedd ar faterion penodol

4.4 Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eisiau ystyried y math a'r ystod o sefydliadau y maent yn dymuno iddynt gael eu cynrychioli gan aelodau cyfetholedig, yn seiliedig ar y sgiliau a'r profiad a fydd yn fuddiol ac yn berthnasol i'w gwaith – er enghraifft cynrychiolwyr:
- Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch
- Cynrychiolwyr y trydydd sector
- Sefydliadau Busnes neu Sector penodol
- Undebau Llafur

4.5 Gallent yn yr un modd fod yn unigolion preifat ag arbenigedd a allai fod yn ddefnyddiol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig."

3.3. Mae'r canllawiau yn cadarnhau ei bod yn fater o ddisgresiwn i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wneud penderfyniadau mewn perthynas â phwy y gellir ei gyfethol, am ba hyd a phwrpas y cyfethol hwnnw, neu a yw aelodau'n cael eu cyfethol gyda hawliau pleidleisio neu hebddynt, cyn belled â bod y cytundeb cyfethol yn glir ynghylch telerau'r cyfethol. Mae'n bwysig, wrth arfer y disgresiwn hwn, bod yr Aelodau yn glir bod y cyfethol fel Aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar y telerau hynny ac at y dibenion a'r swyddogaethau hynny fel y cytunwyd arnynt yn y cytundebau cyfethol; ac yn yr un modd bod y rhai sy'n cael eu cyfethol i gynrychioli

sefydliadau yn gwneud hynny ar sail y sgiliau a'r profiad y maent yn dod gyda nhw a fydd o fudd i waith y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae cyfethol ar yr is-bwyllgorau ar delerau sy'n benodol i'r swyddogaethau hynny sydd i'w harfer gan bob is-bwyllgor.

3.4. Mae'r sefyllfa reoleiddiol yn rhoi hawl i Aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig bleidleisio yn amodol ar ba bynnag delerau y cytunwyd arnynt fel y nodir yn eu cytundeb cyfethol a fydd yn nodi'r swyddogaeth. Fodd bynnag, rhaid darllen yr hawl hon ar y cyd â'r gofyniad na chaiff nifer yr aelodau cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio fod yn fwy na nifer yr aelodau eraill sydd â hawl i bleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu.

3.5. Ar hyn o bryd mae cyfansoddiad yr is-bwyllgorau trafnidiaeth, cynllunio a Llywodraethu ac Archwilio yn aelodaeth gyfetholedig lwyr. Mae aelodaeth a deiliadaeth pob un yn cael ei nodi yn nhelerau eu cytundebau cyfethol, gan gynnwys yr hawl i bleidleisio. Mae arweinyddion y Cyngor yn ffurfio aelodaeth yr is-bwyllgor Lles Economaidd, gyda'r cynrychiolwyr a ganlyn wedi'u cyfethol ar hyn o bryd – Parc Cenedlaethol Eryri, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a phedwar cynrychiolydd o'r partneriaid Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Gan fod yr adolygiad o'r Bwrdd Busnes a'i aelodaeth ar y gweill, bydd y model ar gyfer cyfranogiad y Cadeirydd yn yr is-bwyllgor Lles Economaidd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses honno.

3.6. Ar hyn o bryd mae cyfansoddiad a swyddogaeth yr is-bwyllgor Lles Economaidd yn adlewyrchu hynny fel y sefydlwyd o dan y Bwrdd Uchelgais Economaidd, ac fel rhan o drosglwyddiad y Cynllun Twf roedd yr aelodaeth a'r swyddogaeth yn drosglwyddiad uniongyrchol i'r is-bwyllgor. Ar ôl sefydlu'r is-bwyllgor Lles Economaidd, mae'r partneriaid hynny sy'n cynrychioli'r pedwar darparwr Addysg Bellach ac Addysg Uwch allweddol wedi gofyn bod ganddynt hawl i bleidleisio ar yr is-bwyllgor Lles Economaidd. Wrth fodelu ffordd ymlaen, dydi hi ddim ond yn iawn fod deialog agored yn cael ei hagor i gynnwys modelu o amgylch opsiynau ar gyfer ymgysylltu â phartneriaeth. Y bwriad fyddai bod protocol ar gyfer cyfethol yn cael ei greu a fyddai'n cael ei gyflwyno'n ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig am gymeradwyaeth.

3.7. Mae yna hefyd yr opsiwn y gall penodiadau ar yr is-bwyllgorau gynnwys neu fod wedi'u ffurfio'n gyfan gwbl o aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Byddai penodi aelodau o'r fath, byddai niferoedd a thymor yn y rôl yn fater i'w benderfynu gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae cyfle i gefnogi gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig drwy hefyd edrych i ddatblygu gwahanol opsiynau ymgysylltu. Gallai hyn gynnwys grwpiau ymgynghorol ac opsiynau ynghylch cyd-gynhyrchu a chydweithio â rhanddeiliaid. Gellid datblygu hyn fel rhan o'r gwaith o amgylch cyfethol.

3.8. Mae'n bwysig bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gwrando'n ofalus ar ei bartneriaid ac yn datblygu ei drefniadau llywodraethu er mwyn gallu cefnogi ei swyddogaethau yn y dyfodol, yn enwedig o ran lles economaidd. Bydd angen i'r is-bwyllgor Lles Economaidd adolygu ei aelodaeth a'i swyddogaeth yn rheolaidd wrth iddo ddatblygu a sefydlu ei bwerau lles economaidd. Bydd angen i'w lywodraethu hefyd gwmpasu'r Parth Buddsoddi a fydd â gofynion llywodraethu i'w cytuno a'u mabwysiadu hefyd. Yn amodol ar ei gyfeiriad, bydd angen sgiliau ac arbenigedd gwahanol er mwyn llywio a hyrwyddo twf economaidd mewn ffordd gynaliadwy a chydweithredol. Bydd angen ystyried y gwaith blaengar o amgylch datblygu'r Parth Buddsoddi gydag atebolrwydd yn gorwedd gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd yn y proffil llywodraethu.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol."

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

13 Mehefin, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Diweddariad Rhaglen Weithredu Ôl-drosglwyddo'r CBC 2025-26 |
| AWDUR: | Iwan Evans, Swyddog Monitro<br>Dave Hole, Arweinydd Rhaglen Weithredu'r CBC |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Diweddaru Aelodau ar ôl trosglwyddo ar ddatblygiad y prosiect a pharhâd cynnydd y rhaglen weithredu i gefnogi sefydliad parhaus Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC).

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y CBC yn derbyn y diweddariad a'r cynnydd a wnaed, ac yn nodi'r cyfyngiadau presennol i barhau gyda sefydliad parhaus y CBC drwy raglen o newid (gwelliant newydd a pharhaus) yn gychwynnol ar gyfer 2025/26.

2.2. Cyfarwyddo bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ym mis Medi i roi diweddariad ar gynnydd cyflawni rhaglen 2025/26.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd corfforaethol, mae'n bwysig bod y CBC yn cael diweddariad rheolaidd o reoli prosiect a'r rhaglen gyflawni gweithredu sy'n cefnogi sefydliad y CBC. Bydd hyn yn gofyn am ddatblygu rhaglen aml-flwyddyn er mwyn cyflwyno capasiti a gallu newydd yn dilyn y broses ffurfiol o benodi Uwch Swyddog Gweithredol. Ar hyn o bryd, mae'n bwysig cadw momentwm a pharhau gydag unrhyw raglen o newid uniongyrchol ar gyfer y flwyddyn hon yn y lle cyntaf. Nid yn unig y bydd hyn yn sicrhau y cwblheir unrhyw gyflawni cyn-trosglwyddo sydd heb ei weithredu, ond hefyd bod y gallu newydd sydd yn angenrheidiol ar gyfer 2025/26 yn cael ei gynllunio a'i gyflawni.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae gan y CBC statws gweithredu llawn, sy'n golygu y gall weithredu fel endid corfforedig, bod ganddo'r gallu i gyflogi pobl a bod ganddo'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol yn eu lle. Mae hyn yn darparu'r brif fframwaith llywodraethu a fydd yn galluogi'r CBC weithredu fel awdurdod cyhoeddus ar draws ei holl swyddogaethau.

4.2. Yn ogystal, mae penderfyniad y CBC (21 Mawrth 2025) i ymrwymo i Gytundeb Cyflawni a Chyllido lle trosglwyddir rôl y corff Atebol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru (cyfrifoldeb dros gyflawni a threfniadau cyllido) i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi galluogi trosglwyddo staff ac asedau i'r CBC. Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd wedi'i sefydlu i ymgymryd â'r gwaith

yma. Prif ffocws y tîm oedd trosglwyddo a chafodd hyn ei gwblhau'n llwyddiannus ar 1 Ebrill 2025.

4.3. Drwy'r broses hon, mae'r CBC wedi cydnabod cymhlethdod rhaglen gyflawni'r Cynllun Twf, yn benodol y trefniadau trosglwyddo, ond hefyd y bobl, y gweithdrefnau a'r systemau i'w sefydlu ar ôl trosglwyddo. Mae adrannau canlynol yr adroddiad hwn yn amlinellu'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni ac yn amlinellu'r cynllun cyflawni fydd yn cael ei ddatblygu ar unwaith ar gyfer 2025/26.

## 5. CYNNYDD I SEFYDLU'R CBC CYN-TROSGLWYDDO

5.1. Mae Rhaglen Weithredu'r CBC wedi gwneud cynnydd sylweddol hyd at ac yn cynnwys y trosglwyddiad ar 1 Ebrill 2025. Rhai o'r brif uchafbwyntiau sydd wedi'u cyflawni oedd:

i. Penodiadau'r CBC (Cadeirydd, Is-gadeirydd, Prif Swyddog Gweithredol Arweiniol, Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151)
ii. Trosglwyddo'r Cynllun Twf a'i gyllid
iii. Trosglwyddo grantiau
iv. Trosglwyddo staff Swyddfa Rheoli Rhaglen (PMO) i'r CBC drwy TUPE
v. Sefydlu'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, yr Is-bwyllgor Lles Economaidd a datblygiad rhagbaratoi is-bwyllgorau pellach
vi. Mabwysiadu Cyfansoddiad a Rheolau Sefydlog
vii. Cyhoeddi cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg
viii. Buddiannau staff cychwynnol
ix. Polisïau staff
x. Gwefan y CBC
xi. Newidiadau system gaffael i'r CBC
xii. Trefniadau bancio newydd
xiii. Trefniadau polisi Yswiriant y CBC
xiv. Trefniadau system Cyflogres
xv. Strategaeth Rheoli Trysorlys

5.2. Arweiniodd y nifer o heriau a chymhlethdod y math hwn o raglen at oedi ym mharodrwydd y trosglwyddiad ar 1 Tachwedd 2024. Roedd meysydd cymhleth yn cynnwys cymeradwyaethau llwybr cytundeb partner ar gyfer llofnodi cytundebau i drosglwyddo'r cynllun twf, amnewid ei gyllid, a throsglwyddo TUPE o'r staff Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO), gan gynnwys galluogi swyddogaethau megis cyllid, AD, TG.

## 6. CYNNYDD I SEFYDLU'R CBC – RHAGLEN 2025/26

6.1. Yn dilyn y trosglwyddiad ar 1 Ebrill 2025, nododd Bwrdd Gweithredu'r CBC yr angen i lunio rhaglen newydd ar gyfer 2025/2026 i gynnwys unrhyw gyflawniad (wedi'i adnabod fel rhywbeth nad yw'n hanfodol ar gyfer trosglwyddo) nad oedd wedi'i gwblhau cyn-trosglwyddo, ac i adnabod y newidiadau blaenoriaeth cychwynnol i'w cwblhau. Mae Arweinydd Rhaglen Weithredu'r CBC, mewn ymgynghoriad â swyddogion, wedi datblygu rhaglen o newid a gwelliant yn seiliedig ar flaenoriaethau a rhai ffactorau cyfyngol ar gyfer y flwyddyn hon. Bydd angen rhagor o waith ar gyfer newid sydd heb ei ddatblygu eto yn y blynyddoedd dilynol.

6.2. Mae ein rhaglen ddatblygu gyfredol yn cael ei chyflawni neu yn y broses o wneud hynny. Mae'r rhaglen hon yn parhau i fod yn sylweddol, yn gymhleth ac yn ddwys o ran adnoddau. Mae crynodeb o'r rhaglen yn cynnwys:

i. **Swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredol**
   a. Datblygu Cynllun Corfforaethol
   b. Datblygu Prosbectws y CBC
   c. Dylunio Sefydliadol (gan gynnwys datblygu)

ii. **Cyfreithiol a Llywodraethu**
   a. Datblygu llywodraethu o amgylch yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (y Bwrdd Uchelgais Economaidd gynt)
   b. Mae pwyllgorau eraill sy'n cael eu datblygu yn cynnwys Llywodraethu ac Archwilio, a Safonau
   c. Sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu (JOSC)
   d. Sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth Ffurfiol (pob swyddogaeth) gyda Chyngor Gwynedd
   e. Adolygu'r cyfansoddiad a datblygiadau pellach
   f. Adnoddau wedi'u recriwtio

iii. **Technoleg Gwybodaeth a Digidol**
   a. Gweithredu system reoli pwyllgor, cefnogir gan y Gwasanaethau Democratiaeth
   b. Datrysiad gwe-ddarlledu newydd ar gyfer y CBC sy'n cefnogi'r Gwasanaethau Democratiaeth
   c. Datblygu gwefan ymhellach
   d. Sefydlu Rheoli Dogfen SharePoint

iv. **Gweithrediadau'r CBC**
   a. Ystod o bolisïau i'w datblygu a'u cyhoeddi er mwyn cwrdd â gofynion deddfwriaethol a chefnogi cynllunio corfforaethol
   b. Amnewid cytundebau caffael
   c. Cytuno ar brydlesi ac adnewyddu adeiladau newydd
   d. Adnoddau wedi'u recriwtio

v. **Cyllid**
   a. Sefydlu Rheoli Risg Corfforaethol
   b. Cwblhau cytundebau ariannol
   c. Proses archwilio
   d. Adnewyddu yswiriant
   e. Trosglwyddo pensiynau
   f. Adnodd wedi'i recriwtio

vi. **AD (Pobl)**
   a. Wedi recriwtio a phenodi Prif Swyddog Gweithredol
   b. Wedi lansio buddiannau pellach
   c. Polisi Tâl 2025/26 a 2026/27
   d. Wedi creu Telerau ac Amodau AD y CBC
   e. Partneriaethau cymdeithasol/Undebau Llafur

6.3. Gall gyfyngu ffactorau risg wrth ddatblygu ein rhaglen newydd gynnwys:

i. Amodau marchnad i recriwtio adnoddau lle mae gofyn amdanynt i gefnogi cyflawniad y systemau, proses a pholisïau systemau
ii. Cyfyngiadau cyllideb y CBC
iii. Sicrwydd arian grant e.e. Cyfle datblygu prosbectws y CBC a/neu fygythiadau
iv. Cyfyngiadau a ffiniau Cytundeb Lefel Gwasanaeth

v. Penodi Prif Swyddog Gweithredol ac unrhyw newidiadau mewn cyfeiriad
vi. Ymgysylltu â phartner a chefnogi meysydd allweddol datblygu er mwyn galluogi gwell llywodraethu'r CBC, e.e. pwyllgorau, cyfethol ac ati.

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Mae rhaglen weithredu'r CBC yn cael ei chefnogi gan ychydig o adnoddau cytundeb sydd wedi'u targedu at gefnogi gwasanaethau rheoli rhaglenni, cyfreithiol a democratiaeth. Bydd angen y capasiti hwn yn y tymor byr i ganolig yn ystod 2025/26 nes i'r CBC recriwtio adnoddau, sefydlogi a medru gyrru'r gwaith yn ei flaen heb y gefnogaeth hon.

## 8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu'r penderfyniad a geisir.

---

ATODIADAU:

Dim

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Cyd-awdur yr adroddiad.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid yn parhau i ddarparu cymorth i hwyluso datblygiad pellach y CBC. Mae cyllidebau a gwariant y CBC a'r Cynllun Twf yn destun adolygiad rheolaidd, ac rwy'n hyderus bod y trefniadau ariannol yn gadarn."

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

13 Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Parth Buddsoddi Sir Y Fflint A Wrecsam |
| AWDURON: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro<br>Iain Taylor, AMION Consulting |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Parth Buddsoddi newydd yn Sir y Fflint a Wrecsam sy'n canolbwyntio ar Weithgynhyrchu Uwch. Mae llawer o'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am elfennau'r Parth Buddsoddi, ond gofynnir am benderfyniad ar yr egwyddorion o sut y bydd y Parth Buddsoddi yn cael ei sefydlu a sut y gwneir penderfyniadau a dirprwyaethau.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Gofynnir i'r CBC:

- Derbyn yr Adroddiad Diweddaru.
- Adolygu'r trefniadau amlinellol arfaethedig ar gyfer Bwrdd Cynghori Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn Rhan 3.7 a chynghori ar y cynnig.
- Adolygu'r Fframwaith Dirprwyo a Phenderfyniad arfaethedig yn Rhan 3.10 a chynghori ar y cynnig.
- Gofyn am adroddiad pellach gyda chynigion manwl yn dilyn y Gweithdy Rhyng-Awdurdod.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r broses ar gyfer datblygu Parthau Buddsoddi yn gydweithredol o ran ei natur ac mae'n dibynnu ar rannu dogfennaeth i'w hadolygu ar draws rhanddeiliaid lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (MHCLG).

3.2 **Trosolwg o Flwyddyn 1 y Parth Buddsoddi (Ebrill 2025 - Mawrth 2026)**

Ffocws uniongyrchol Blwyddyn 1 (2025-2026) yw sicrhau'r Rhaglen Parth Buddsoddi drwy Gytundebau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan ganiatáu i gyllid Blwyddyn 1 gael ei sicrhau a dechrau gyda chyflawni'r Parth Buddsoddi. Y nod yw gallu cymeradwyo'n llawn erbyn Medi 2025. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi ac actifadu Safleoedd Treth y Parth Buddsoddi.

Mae'r ffocws cyflawni uniongyrchol ar yr isod:

- **ffurfioli'r tîm cyflenwi -** mae hyn yn cynnwys penodi AMION i ymgymryd â rôl rheoli rhaglen ar gyfer y CBC gan weithio'n agos gyda Sir y Fflint a Wrecsam i sicrhau bod gofynion y Llywodraeth yn eu lle ac ym Mlwyddyn 1 bod Cyngor Sir y Fflint a Wrecsam yn unigol yn penodi (yn dilyn ymarfer recriwtio) arweinwyr Parth Buddsoddi ar gyfer eu hardal. Bydd y ddau Gyngor yn sefydlu'r Uned Cynllunio Parth Buddsoddi.
- **sefydlu'r strwythur llywodraethu -** sefydlu a rheoli'r Bwrdd Cynghori a'r Gweithgorau.
- **datblygu achosion busnes allweddol y prosiect** - sicrhau bod y prosiectau sy'n cael eu hadnabod yn gwneud cynnydd trwy broses sicrwydd y CBC ac yn dod ymlaen am benderfyniad.
- **lansio'r Rhaglen Sgiliau Parth Buddsoddi -** sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Sgiliau'r Parth Buddsoddi gan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a sicrhau dyfarniadau prosiect i bartneriaid cyflawni allweddol.
- **lansio Rhaglen Cymorth Busnes y Parth Buddsoddi -** y rhaglen grantiau sydd ar gael i fusnesau gweithgynhyrchu ledled Sir y Fflint a Wrecsam.
- **sicrhau'r achos busnes ar gyfer trawsnewid bysiau -** penodi Trafnidiaeth Cymru i ymgymryd â'r achos busnes a'r fanyleb gaffael ar gyfer gwasanaethau bysiau a ddyfernir gan y ddau Gyngor ym Mlynyddoedd 2-10.
- **Cyflawni arloesedd** - partneriaethau gyda phartneriaid cyflawni arloesedd allweddol (gan gynnwys Airbus, Prifysgol Wrecsam, Prifysgol Bangor a Choleg Cambria)

3.3 **Trosolwg o Borth 4**

Cyflwynwyd Porth 4 ddechrau mis Mai 2025, ac roedd yn nodi sut mae gan yr ymyriadau 'ar y fwydlen' a gynigiwyd y potensial i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau a'r rhwystrau i dyfu'r sector Gweithgynhyrchu Uwch yn Sir y Fflint a Wrecsam. Roedd ymateb y Porth yn cynnwys prif ddogfen destunol sy'n cwmpasu materion fel ychwanegoldeb, aliniad strategol ag ymyriadau eraill nad ydynt yn rhai IZ a manylion ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyllid cyfatebol posibl, ac fe'i cefnogwyd hefyd gan daenlen dechnegol. Archwiliodd taenlen Porth 4 y dyraniadau cyllid ymyrraeth ar draws y Safleoedd Treth a NNDR a themâu gwariant hyblyg eraill, yn ogystal â'r allbynnau a'r canlyniadau cyfatebol.

Mae Tabl 2 isod yn rhoi crynodeb o'r proffil gwariant dangosol a ddatblygwyd ar y cyd fel rhan o gyflwyniad Porth 4. Y cynnig yw adolygu dyrannu buddion i feddianwyr ar ganol y Parth Buddsoddi. Os oes angen darpariaeth bellach, gall hyn fod yn rhan o adolygiad ehangach y Parth Buddsoddi o ddyraniadau ymyrraeth sy'n edrych ar werthuso cryfderau cyflawni ac effaith.

Mae Ffigur 1 isod yn nodi'r ystod o allbynnau ac effeithiau a ddisgwylir o'r rhaglen Parth Buddsoddi.

Disgwylir adborth ar Borth 4 ym mis Mehefin 2025. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol sy'n ofynnol i'r ymyriadau a nodir yn Nhabl 1 yn dod yn ôl i'r CBC i'w cymeradwyo.

3.4. **Mapiau wedi'u Diweddaru**

Cafwyd adolygiad o'r Mapiau Treth a ddarparwyd i gefnogi Porth 2. Mae'r mapiau diwygiedig, gan ystyried adborth ac eglurhad wedi'u cynnwys yn ***Atodiad 1*** er gwybodaeth. Nid yw'r lleoliadau wedi newid, gyda mân ddiwygiadau i ffiniau.

3.5. **Trosolwg o Borth 5**

Ar hyn o bryd mae'r tîm yn paratoi Porth 5 i'w gyflwyno. Elfennau allweddol Porth 5 yw:

- Cerrig milltir Parth Buddsoddi
- Rhaglen y Parth Buddsoddi, i'w pharatoi a'i darparu i gyfarfod y CBC yn y dyfodol
- Cofrestr Risg Parth Buddsoddi, i'w baratoi a'i ddarparu i gyfarfod y CBC yn y dyfodol

Mae'r cerrig milltir lefel uchel ar gyfer Blwyddyn 1 wedi'u nodi yn Nhabl 1 isod.

| Tabl 1 - Cerrig milltir allweddol | |
|---|---|
| Carreg Filltir | Dyddiad dangosol (erbyn) |
| Cytuno i Borth 4 | 18 Gorffennaf 2025 |
| Cyflwyno Porth 5 | 30 Mehefin 2025 |
| Cynllun Sgiliau wedi'i gymeradwyo gan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol | 30 Mehefin 2025 |
| Sefydlu Rhaglen y Bwrdd Cynghori Dros Dro | 30 Mehefin 2025 |
| Cytuno i Borth 5 | 31 Gorffennaf 2025 |
| Cytuno i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth | 31 Awst 2025 |
| Cyflwyno'r Cynllun Cyflawni Blwyddyn 1, gan gynnwys Cynllun Cyflawni'r Safle Treth | 31 Awst 2025 |
| Cytuno i Gynllun Cyflawni Blwyddyn 1 | 30 Medi 2025 |
| Llofnodi Cynnig Grant Blwyddyn 1 | 30 Hydref 2025 |
| Mapiau Treth Parth Buddsoddi wedi'u Cyhoeddi | 15 Tachwedd 2025 |
| Cytuno ar Arian Buddsoddiad Trethi a Gedwir | 20 Rhagfyr 2025 |
| Cytuno ar Gynllun Cyflawni Blwyddyn 2 gyda'r Gweithgor | 20 Rhagfyr 2025 |

| Tabl 2 - Porth 4 – Proffil Gwariant Dangosol | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | Cyfanswm |
| Refeniw | | | | | | | | | | | |
| Cynllunio | £1,035,000 | £990,000 | £1,110,000 | £1,020,000 | £975,000 | £850,000 | £790,000 | £760,000 | £700,000 | £670,000 | £8,900,000 |
| Sgiliau | £1,091,700 | £2,280,422 | £2,018,422 | £2,126,422 | £2,126,422 | £2,126,422 | £2,126,422 | £2,126,422 | £2,126,422 | £2,126,422 | £20,275,500 |
| Cymorth Busnes neu Randdeiliaid | £667,900 | £517,900 | £717,900 | £717,900 | £717,900 | £730,400 | £730,400 | £730,400 | £730,400 | £717,900 | £6,979,000 |
| Seilwaith Lleol | £2,250,000 | £2,250,000 | £2,250,000 | £2,250,000 | £2,250,000 | £2,250,000 | £2,250,000 | £2,250,000 | £2,250,000 | £2,250,000 | £22,500,000 |
| Ymchwil ac Arloesi | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £5,345,500 |
| | | | | | | | | | | | **£64,000,000** |
| Cyfalaf | | | | | | | | | | | |
| Sgiliau | £2,804,500 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £2,804,500 |
| Cymorth Busnes neu Randdeiliaid | £950,000 | £1,200,000 | £1,000,000 | £1,000,000 | £1,000,000 | £1,012,500 | £1,012,500 | £1,012,500 | £1,012,500 | £1,000,000 | £10,200,000 |
| Seilwaith Lleol | £4,500,000 | £21,000,000 | £11,000,000 | £10,000,000 | £7,600,000 | £6,000,000 | £350,000 | £5,000,000 | £0 | £2,000,000 | £67,450,000 |
| Ymchwil ac Arloesi | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £534,550 | £5,345,500 |
| Dyraniadau ar gyfer Buddion Meddianwyr | £510,000 | £1,020,000 | £1,530,000 | £2,040,000 | £5,100,000 | Yn amodol ar adolygiad canol tymor o ddefnydd ym mlynyddoedd 1-5 | | | | | £10,200,000 |
| | | | | | | | | | | | **£96,000,000** |
| Proffil Gwariant | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm | **£14,878,200** | **£30,327,422** | **£20,695,422** | **£20,223,422** | **£20,838,422** | **£14,038,422** | **£8,328,422** | **£12,948,422** | **£7,888,422** | **£9,833,422** | **£160,000,000** |
| Proffil Gwariant wedi'i addasu | **£16,000,000** | **£16,000,000** | **£16,000,000** | **£16,000,000** | **£16,000,000** | **£16,000,000** | **£16,000,000** | **£16,000,000** | **£16,000,000** | **£16,000,000** | **£160,000,000** |

Mae'r ffigur isod, a dynnwyd o'r Model Rhesymeg wedi'i ddiweddaru ar gyfer Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, yn crynhoi'r allbynnau a'r canlyniadau y rhagwelir y bydd yr ymyriadau yn eu datgloi ar draws y gwahanol themâu gwariant hyblyg.

Ffigur 1 - Allbynnau a Chanlyniadau Allweddol sy'n deillio o Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

## Allbynnau

**Sgiliau**
Cyflawni 20 o gyrsiau hyfforddi a rhaglenni ymgysylltu eraill
Dros 1000 o ddysgwyr yn cwblhau Bŵtcamp Sgiliau, wedi'i gyd-gynllunio drwy ymgysylltu â hyd at 10 o gyflogwyr
300 o unigolion yn dechrau prentisiaeth mewn cyfleuster newydd neu well
tua 1,000 o unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu AB / AU gan gynnwys prentisiaethau (gradd) neu raglen MSc/MRes/PhD sydd newydd ei chreu
Dros 30 o gyflogwyr yn hawlio taliad cymhelliant ar gyfer prentis newydd
Cyflawni o leiaf 2 Academi Sgiliau sector-benodol, gydag o leiaf 30 o gyfranogwyr

**Cymorth Busnes neu Randdeiliaid**
Dros 130 o fusnesau yn cymryd rhan mewn digwyddiadau neu raglenni cymorth busnes, neu'n derbyn cymorth anariannol
Bron i £10 miliwn o gymorth ariannol megis grantiau wedi'i ddyfarni i tua 200 o fusnesau ar gyfer twf gweithgynhyrchu
Gwell system concierge busnes yn darparu cymorth gyda phynciau gan gynnwys cyllid grant

**Seilwaith Lleol**
Bron i 1 miliwn metr sgwâr o ofod llawr masnachol newydd/gwell, gydag offer ar gyfer gweithgarwch ymchwil a datblygu ac arloesi
Gwerth £500,000 o offer cyfalaf newydd
tua 160 hectar o safleoedd datblygu allweddol gyda rhwystrau i gyfleustodau wedi'u dileu neu mynediad uniongyrchol wedi'i greu
Cyflawni 2 raglen fysiau trawsnewidiol, gan gynnwys 1 yn Sir y Fflint ac 1 yn Wrecsam
3 ymyrraeth mynediad priffyrdd safle-benodol wedi'u hychwanegu/gwella
Hwb dosbarthu cludo nwyddau a logisteg gwell

**Ymchwil ac Arloesi**
£1.2 miliwn o grant ymchwil a datblygu sy'n canolbwyntio ar ddata wedi'i ddyfarnu i dros 20 o gwmnïau
£9.5 miliwn o grant ymchwil a datblygu ar gyfer offer cyfalaf wedi'i

## Canlyniadau (Canolraddol)

Gwelliant mewn **Cyfalaf Dynol**:
tua 3,500 o unigolion yn elwa o ymyriadau drwy naill ai sicrhau cyflogaeth medrus, cymwysterau uwch neu gyda'r sgiliau cyflogwr gofynnol
Ymgysylltiad STEM cyn-16 ac ôl-16 wedi cynyddu drwy ryngweithio â dros 400 o gyfranogwyr
Dros 40 o gyflogwyr yn adrodd gostyngiad mewn prinder sgiliau
Dros 1,000 o fuddiolwyr ymyrraeth sgiliau yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y farchnad lafur

Gwelliant mewn **Cyfalaf anniriaethol**:
Dros £14 miliwn o wariant ychwanegol ar hyfforddiant a chymorth busnes penodol i'r sector
Dros 130 o fusnesau neu bartïon eraill sydd â diddordeb yn cymryd rhan mewn gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth newydd
Bron i £20 miliwn o gyllid wedi'i ddarparu i dros 150 o gwmnïau i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol
Cyflogi 4 FTE newydd i ddarparu mwy o gapasiti ar gyfer ACLl, gan gynnwys uwchsgilio a mwy o weithgarwch datblygu

Gwelliant mewn **Cyfalaf Ffisegol**:
2 ardal awdurdod lleol yn elwa o well mynediad i safleoedd cyflogaeth ac addysg allweddol, a chysylltedd â thai
Buddsoddiad mewn gweithfeydd a pheiriannau wedi cynyddu bron i £50 miliwn
Hyd at 1500 o unigolion yn elwa o well mynediad a chysylltiadau â safleoedd treth allweddol IZ
Cynnydd rhagamcanedig o 10% mewn cyfran teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus o amgylch safleoedd cyflogaeth allweddol
Dros 1 miliwn metr sgwâr o arwynebedd llawr mwy wedi'i ddatgloi oherwydd ymyrraeth i fynd i'r afael â heriau cysylltedd

Gwelliant mewn **Cyfalaf ariannol**:
Mwy o gyllid ar gyfer gweithgareddau ymchwil a datblygu gan fusnesau, gan gynnwys prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol
Dros 200 o fusnesau ychwanegol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil a datblygu
Dros £20 miliwn o fuddsoddiad cynyddol mewn gweithfeydd a pheiriannau
Dros £10.5 miliwn o fuddsoddiad cyhoeddus mewn cyd-fuddsoddiad preifat newydd

## Canlyniadau (Tymor Hir)

Hybu cynhyrchiant

Cynnydd mewn enillion gwirioneddol ar gyfer gweithwyr sgiliau uchel ac isel

Mwy o gystadleurwydd rhyngwladol cwmnïau o fewn y clwstwr

Technolegau newydd y mae galw amdanynt yn

Cynnig sgiliau ac arloesedd integredig


Ehangu'r cadwyni cyflenwi presennol

Gwell cysylltedd ar draws y clwstwr gyda gwell cysylltiadau rhwng asedau tai, cyflogaeth ac addysg

3.6. **Sefydlu'r Bwrdd Cynghori**

Fel y nodir ym Mhorth 3, mae'r strwythur Llywodraethu ar gyfer y Parth Buddsoddi wedi'i nodi yn Ffigur 2 isod. Mae'r diagram yn dangos rôl y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wrth gynghori'r Bwrdd Cynghori (ac yn ei dro'r Is-bwyllgor Lles Economaidd) ar gyflwyno Sgiliau. Mae'n cael ei gefnogi gan Is-grŵp sy'n canolbwyntio ar weithredu Cynllun Sgiliau'r Parth Buddsoddi ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r RSP, Coleg Cambria, Prifysgol Wrecsam a'r awdurdodau lleol lletya.

Ffigur 2 - Strwythur Llywodraethu'r Parth Buddsoddi




3.7. **Bwrdd Cynghori Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam**

Joanna Knight yw Cadeirydd Dros Dro y Bwrdd Cynghori. Caiff y penodiad ei gadarnhau gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn y cyfarfod cyntaf lle mae'r Parth Buddsoddi yn rhan o'r agenda.

Bydd y Proffil Rôl a ganlyn yn cael ei ystyried gan y CBC (yr adroddiad hwn) a Chynghorau Sir y Fflint a Wrecsam cyn cael ei gwblhau.

**Proffil Rôl Drafft – Cadeirydd, Bwrdd Cynghori Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam**

- Ymgynnull a Chadeirio'r Bwrdd Cynghori Parth Buddsoddi, gan sicrhau ymgysylltiad gweithredol a chyson gan aelodau.
- Gweithredu fel hyrwyddwr gweladwy ar gyfer y Parth Buddsoddi, gan hyrwyddo ei weledigaeth a'i uchelgeisiau ar draws y sector preifat.
- Meithrin cydweithrediad ar draws rhanddeiliaid, gan adeiladu ymddiriedaeth ac aliniad rhwng busnesau, partneriaid lleol, a'r llywodraeth.
- Cynnal egni, ffocws a momentwm o amgylch ymyriadau'r Parth Buddsoddi, gan sicrhau bod llais a diddordeb y sector preifat yn cael ei gynnal.
- Cyfathrebu cynnydd yn glir ac yn rheolaidd i randdeiliaid, gan sicrhau ymwybyddiaeth o ddatblygiadau a chyfleoedd allweddol.

- Dathlu cerrig milltir a llwyddiannau, gan dynnu sylw at effaith ac atgyfnerthu ymrwymiad i gyflawni.
- Darparu her adeiladol a chefnogaeth i bartneriaid cyflawni i helpu i yrru canlyniadau a datgloi rhwystrau.
- Cynrychioli'r Parth Buddsoddi mewn digwyddiadau a fforymau, gan weithredu fel eiriolwr credadwy a brwdfrydig.
- Cynghori ar faterion a chyfleoedd allweddol sy'n effeithio ar y Sector Gweithgynhyrchu Uwch
- Sicrhau bod cyngor a barn y Bwrdd yn cael eu cyfathrebu i fforymau gwneud penderfyniadau mewn ffordd deg a chytbwys.

Bydd rôl y Cadeirydd yn cael ei chefnogi gan Reolwr Rhaglen y Parth Buddsoddi a Phrif Weithredwr y CBC. Gall y Cadeirydd gyfethol Cynrychiolwyr y Sector Preifat fel aelodau o'r Bwrdd Cynghori.

Disgwylir i Gyfarfodydd y Bwrdd Cynghori fod ar-lein ond gellir eu cynnal wyneb yn wyneb unwaith y flwyddyn a bydd uchafswm o bedwar cyfarfod 2 awr o hyd y flwyddyn. Bydd cofnodion a gweithredoedd yn cael eu cofnodi gan swyddog CBC.

Aelodau'r Bwrdd Cynghori

Bydd y sefydliadau a nodir isod yn cael eu gwahodd i benodi cynrychiolwyr ar lefel addas i'r Bwrdd Cynghori. Mae Airbus a JCB wedi cadarnhau cynrychiolwyr. Dylai aelod CBC y Bwrdd fod yn aelod o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ac eithrio o Sir y Fflint a Wrecsam a bydd yn cael ei benodi gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

- Aelod CBC y Bwrdd
- Cynrychiolaeth Wleidyddol Sir y Fflint
- Cynrychiolaeth Wleidyddol Wrecsam
- ASau lleol
- AoS lleol
- Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Llywodraeth Cymru / Swyddogion Llywodraeth y DU fel arsyllwyr
- Prifysgol Wrecsam
- AMRC
- Cyngor Busnes Gogledd Cymru
- Cynrychiolwyr y Sector Preifat

3.8. **Diweddariad ar y Cynllun Sgiliau**

Ar ôl cyflwyno'r Cynllun Sgiliau newydd i'r Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ym mis Mai, mae rhanddeiliaid bellach wedi cael cyfle i ddarparu unrhyw adborth a sylwadau ar gynnwys yr adroddiad newydd. Mae AMION, mewn ymgynghoriad agos â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, bellach yn gweithio drwy'r adborth a dderbyniwyd i sicrhau bod y Cynllun Sgiliau wedi'i gwblhau yn adlewyrchu barn rhanddeiliaid lleol yn ddigonol. Mae mesurau hefyd wedi'u cymryd i sicrhau bod yr argymhellion llywodraethu a chyflawni sydd wedi'u hintegreiddio yn y Cynllun yn parhau i fod yn cyd-fynd yn fras â'r strwythurau newydd ar draws gweddill y rhaglen Parth Buddsoddi.

Wedi'i ffurfio gan broses gadarn a chynhwysol o ymgysylltu â rhanddeiliaid a dadansoddi data, mae'r Cynllun wedi adnabod nifer o themâu a meysydd ymyrraeth craidd i sicrhau bod datblygu'r gweithlu yn cadw i fyny ag uchelgeisiau'r rhanbarth ar gyfer trawsnewid economaidd - ac yn mynd ati i gefnogi hynny - gyda ffocws penodol ar Weithgynhyrchu Uwch. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif themâu ymyrraeth hyn, a fydd gyda'i gilydd yn cyfrannu at sefydlu system sgiliau sy'n gweithredu'n dda lle mae'r cyflenwad a'r galw yn cyd-fynd yn effeithiol.

Rhagwelir y bydd AMION yn cyflwyno'r Cynllun Sgiliau terfynol yng nghyfarfod Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ym mis Mehefin, a fydd wedyn yn cael ei ddefnyddio fel fframwaith wedi'i dargedu ar gyfer buddsoddi sy'n gysylltiedig â sgiliau yn ystod y rhaglen Parth Buddsoddi.

| Tabl 3 - Trosolwg o'r Rhaglen Sgiliau Arfaethedig | | |
|---|---|---|
| **Themâu Ymyrraeth** | **Ardaloedd Ymyrraeth** | **Dyraniad Dangosol (%)** |
| Mwy o ymgysylltiad gyda cyn-16 ac Ysgolion | Cymorth gyrfaoedd cydgysylltiedig ac adnoddau i gynyddu ymgysylltiad cyn-16 â STEM ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa lleol | 20-25% |
| | Cyflawni rhaglen sydd wedi'i hanelu at wella amrywiaeth y gweithlu gweithgynhyrchu a'r biblinell dalent, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghydbwysedd hirsefydlog rhwng y rhywiau | |
| | Integreiddio cyfleoedd Parth Buddsoddi i gwricwlwm ysgol ac a ddatblygwyd ar gyfer cefnogi 'parodrwydd i waith' pobl ifanc | |
| Cymorth i ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed | Defnyddio cymhellion i gyflogwyr ehangu cyflawni prentisiaethau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Parth Buddsoddi i ehangu llwybrau yn y sector allweddol | 35-40% |
| | Defnyddio cymhellion i ehangu cyfleoedd i bobl ifanc feithrin sgiliau parod i weithio trwy interniaethau a lleoliadau gwaith | |
| | Gwelliannau seilwaith i ddarparu ar gyfer capasiti gwell (e.e. mannau cydweithredol) | |
| | Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i wella hygyrchedd addysg a hyfforddiant | |
| | Sefydlu cynllun mentora a mentora o chwith i yrru trosglwyddo gwybodaeth dau gyfeiriad a dysgu cydfuddiannol | |
| Llwybrau gwell ar gyfer y rhai 18+ oed | Cefnogaeth ar gyfer recriwtio a chadw prentisiaid mewn Gweithgynhyrchu Uwch, yn ogystal â chreu prentisiaethau gradd newydd ochr yn ochr â rhaglenni MSc, PhD ac MRes newydd | 20-25% |
| | Cyd-gynllunio addysg a hyfforddiant gyda chyflogwyr fel bŵtcamps sgiliau neu fodelau academi gwaith yn seiliedig ar y sector wedi'u targedu at y rhai sydd bellach o'r farchnad lafur | |
| | Datblygu micro-gymwysterau a chyrsiau byr i dyfu sgiliau lefel uwch a thechnegol | |
| | Ehangu'r Porth Sgiliau i gynnwys gyrfaoedd, llwybrau, cyfleoedd a digwyddiadau penodol i'r Parth Buddsoddi | |
| Uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu presennol | Mentrau ailhyfforddi i ganiatáu ar gyfer trawsnewidiadau gyrfa i'r sector Parth Buddsoddi drwy raglenni wedi'u targedu | 15-20% |
| | Integreiddio cynnwys entrepreneuraidd ac sy'n canolbwyntio ar arloesedd yn y ddarpariaeth | |
| | Sefydlu siarter sgiliau, ac archwilio mecanweithiau caffael i wella ymgysylltiad sgiliau a gyrfaoedd i gyflenwyr | |

3.9. **Prosiectau Allweddol sydd wedi'u hadnabod**

Fe wnaeth Galwad am Brosiectau 2024 adnabod ystod eang o brosiectau buddsoddi posibl a galw sylweddol am raglen cymorth busnes gyda chefnogaeth y gallu i ddarparu cyllid grant i ddatgloi buddsoddiad busnes. Hefyd, fe wnaeth y broses adnabod cyfle buddsoddi i fuddsoddi yn y seilwaith sy'n angenrheidiol i ddatgloi'r safleoedd datblygu mwyaf. Y bwriad yw symud ymlaen ar gyflymder gydag ystyried dau brosiect yn arbennig i gyflymu'r gwaith o ddarparu tir datblygu safle treth newydd a gweithrediadau gweithgynhyrchu newydd ar unwaith.

Mae achos busnes wedi'i dderbyn ar gyfer Project Prince gan Knauf Insulation ac mae Cynllun Prosiect Amlinellol wedi'i dderbyn gan Pochin/Goodman ar gyfer eu tir yn Airfields, Glannau Dyfrdwy. Mae Airbus yn datblygu'r achos dros y Ganolfan Gweithgynhyrchu Uwch wrth ymyl eu campws yng Nglannau Dyfrdwy.

Ochr yn ochr â'r prosiectau hyn, mae trafodaethau'n parhau gyda nifer o fusnesau lleol a newydd i'r rhanbarth sy'n ceisio denu cefnogaeth y Parth Buddsoddi. Y neges i fusnesau sy'n ceisio buddsoddiad gan yr IZ yw:

- llenwch Ffurflen Mynegi Diddordeb fel y gallwn gofrestru'r prosiect; ac
- mae'r drws ar agor, bydd cyllid ar gael unwaith y bydd y Parth Buddsoddi wedi'i gymeradwyo.

3.10. **Dirprwyaethau a Phenderfyniadau**

Mae gweithdy rhwng y CBC a Chynghorau Sir y Fflint a Wrecsam wedi'i gynllunio ar gyfer 24 Mehefin i weithio trwy'r manylion sy'n ymwneud â sut y gwneir penderfyniadau a sut y bydd y rhaglen yn gweithredu o dan ddirprwyaethau gan y CBC.

Yr egwyddorion allweddol a gynigir yw:

- Bod y CBC yn dirprwyo gweithrediad cyfrifoldeb y Corff Atebol i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.
- Bod y CBC yn sefydlu Cyllideb Rhaglen IZ, yn sefydlu'r sail ar gyfer y strwythur llywodraethu (gan gynnwys Cylch Gorchwyl a dirprwyo penderfyniadau i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd, yn rheoli'r Cynllun Dirprwyo, yn ymrwymo i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Llywodraeth a'r ddau Gyngor partner ac yn gyfrifol am staff, Polisi Cyflog a dirprwyo cyffredinol. Yn penodi'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ac yn cymeradwyo trefniadau cyfethol.
- Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn gyfrifol am:
  - Reoli Gweithredu Rôl y Corff Atebol
  - Cymeradwyo'r adroddiadau Monitro a Pherfformiad i'r Llywodraeth
  - Cymeradwyo'r hawliad blynyddol i'r Llywodraeth
  - Dirprwyo o fewn ei Gylch Gorchwyl a'i Gyfansoddiad
  - Cymeradwyo Cytundebau Cyllido Grant a Cherrig Milltir Sicrwydd
  - Rheoli Risg
  - Cymeradwyo strwythurau ac adolygiadau Llywodraethu o fewn ei gylch gorchwyl
  - Cytuno ar Aelodaeth a derbyn adroddiadau a chyngor gan Fwrdd Cynghori'r IZ

- Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cynghori'r CBC ar ddyrannu adnoddau i gefnogi cyflawni
- Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn ystyried, yn rheoli'r broses sicrwydd ac yn gwneud penderfyniad ar yr holl brosiectau sydd uwchlaw cais grant o £5m.
- Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn ystyried, yn rheoli'r broses sicrwydd ac yn gwneud penderfyniadau ar bob prosiect Sgiliau mewn ymgynghoriad â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.
- Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn ystyried, yn rheoli'r broses sicrwydd ac yn gwneud penderfyniadau ar yr holl brosiectau a gyfeirir gan Gynghorau Sir y Fflint a Wrecsam.
- Mae Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam yn rheoli'r broses sicrwydd ac yn gwneud penderfyniadau ar bob prosiect o dan £5m (ac eithrio prosiectau Sgiliau).
- Bydd Gweithgor Sir y Fflint a Wrecsam yn ystyried ac yn gwneud penderfyniad ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol ac yn cyfarfod ym mis Rhagfyr bob blwyddyn i gymeradwyo'r cynllun ar gyfer y flwyddyn ganlynol, a fydd wedyn i'w gyflwyno i EWSBC yn Ch1 i'w gymeradwyo'n derfynol.

## 4. GOBLYGIADAU ARIANNOL

4.1. Mae'r Goblygiadau Ariannol yn ymwneud â gweinyddu £160m o Gyllid Grant Hyblyg a dyraniadau ar gyfer Rhyddhad Treth, yn enwedig Rhyddhad Ardrethi Busnes. Bydd y trefniadau ariannol manwl fel y'u nodir yn y Llythyr Cyllid Grant, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru a'r DU a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Lleol rhwng y CBC a Chynghorau Sir y Fflint a Wrecsam yn cael eu hystyried gan y CBC unwaith y byddant wedi'u paratoi.

## 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Y disgwyliad yw i'r CBC ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru a'r DU. Bydd y CBC hefyd yn cyflogi neu'n ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth lleol gyda phartneriaid awdurdodau lleol. Wrth gyflawni'r rhaglen, bydd y CBC yn goruchwylio'r gwaith o reoli proses sicrwydd prosiect ac yn ymrwymo i Gytundebau Cyllid Grant gyda phrifysgolion, sgiliau, awdurdodau lleol a busnesau lleol. Y bwriad yw datblygu'r egwyddorion hyn yn drefniadau llywodraethu a chyfansoddiadol manwl a fydd yn hwyluso cyflawni a rheoli'r Parth Buddsoddi. Bydd hefyd yn sicrhau bod system gadarn ac effeithiol o gymeradwyaethau a sicrwydd ynghylch cyflawni a defnyddio cyllid cyhoeddus.

5.2. Mae angen gwerthuso ystyriaethau rheoli cymhorthdal ymhellach ond disgwylir iddynt gael eu cynnwys mewn Cynllun Rheoli Cymhorthdal ar draws y rhaglen.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Mapiau Safleoedd Treth |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Rwyf wedi bod yn rhan o gynghori ar y model arfaethedig a chynnwys yr adroddiad. Mae'n tynnu sylw at gymhlethdod y broses wrth ddatblygu'r cynnig Parth Buddsoddi. O safbwynt llywodraethu, mae'n rhoi cyfle i'r CBC ddechrau ystyried y manylion o amgylch y strwythur a rhoi barn gychwynnol. Bydd hyn yn galluogi i'r drafodaeth dechnegol ynghylch y materion hyn gael ei datblygu ar y cyd â'r ddau Gyngor ac yn hwyluso ateb cytunedig. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y gwaith hwn gan y bydd nid yn unig yn hwyluso cyflawni ond hefyd consensws a chyfathrebu effeithiol ar draws y partneriaid. Fel gydag unrhyw fodel o'r fath, bydd yn destun adolygiad cyson a bydd ei fabwysiadu yn rhedeg ochr yn ochr â'r broses gymeradwyo gyffredinol ar gyfer yr IZ."


ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Bydd swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid ar gael i ddarparu cymorth i weinyddu'r grant, yn ogystal â chynghori a chynnal trosolwg fel sy'n ofynnol mewn perthynas â'r Rhyddhad Ardrethi Busnes, y Llythyr Cyllid Grant a'r Memorandwm Dealltwriaeth.

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisiwyd."

**Atodiad 1 – Map o’r Safleoedd Treth**

Parth Glannau Dyfrdwy




**Warren Hall**



Flintshire and Wrexham Investment Zone Tax Site Map
Warren Hall Special Tax Site
Warren Hall (20.29 Ha)
Broadoak Farm
Warren Hall Court
Warren Hall
Gravelhole Wood
Warren Dingle
Mount Farm
The Mount
Slurry Bed
Track
Pond
Boat House
Sewage Bed
Tank
The Old Farmhouse
Warren Lodge
Hillside Cottage
A55
Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council
This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permision of Ordnance Survey on behalf of the Controller of His Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386. Flintshire County Council, 2025.
Planning, Environment & Economy,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow
Scale: 1:1250 @ A0
OS Map: SJ 3262
Produced: May 2025
N

**Stad Ddiwydiannol Wrecsam**



Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Eitem 11

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

13 Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf BUEGC ar gyfer 2024/25 |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu sefyllfa alldro terfynol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2024/25.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Nodi a derbyn adroddiad alldro y BUEGC ar gyfer 2024/25 (Atodiad 1), sy'n cynnwys defnyddio £714,395 o grant Bargen Twf Gogledd Cymru i ddangos sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.

2.2. Nodi a derbyn sefyllfa cronfeydd BUEGC (Atodiad 2).

2.3. Nodi a derbyn adolygiad cyfalaf diwedd blwyddyn BUEGC ar 31 Mawrth 2025 (Atodiad 4).

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Hysbysu'r CBC am sefyllfa ariannol y BUEGC ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2024/25.

3.2. Trosglwyddwyd rôl a swyddogaeth y BUEGC i'r CBC ar 1 Ebrill 2025, a oedd yn cynnwys staff, adnoddau, ymrwymiadau ac asedau ariannol, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r cyllid.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Caiff y BUEGC ei ystyried yn "gorff perthnasol mwy" yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd). Golyga hyn y bydd Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cael ei gynhyrchu ar gyfer 2024/25 a'i gyflwyno i'r CBC maes o law.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

### Refeniw

5.1. Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb yn 2024/25.

5.2. Y sefyllfa alldro net terfynol ar gyfer 2024/25 oedd tanwariant o £385,605, ac mae hyn wedi cynyddu o'r tanwariant o £205,405 a ragwelwyd yn yr adolygiad diwedd Rhagfyr 2024 yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn gwariant ar sawl un o benawdau'r gyllideb. Er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn, gofynnir i'r CBC gymeradwyo swm gostyngedig o £714,395 (o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol o £1,100,000) o grant y Fargen Twf i'w ddefnyddio i ariannu'r gwariant refeniw yn 2024/25.

Swyddfa Rheoli Portffolio

5.3. Mae tanwariant o £75,140 ar y Swyddfa Rheoli Portffolio a dangosir y prif danwariant ar y pennawd Gwariant Gweithwyr. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod chwyddiant cyflog gwirioneddol ar gyfer 2024/25 tua 3% o'i gymharu â'r swm a gyllidebwyd o 6%. Cafodd arian gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin hefyd ei ymestyn tan fis Mawrth 2025, felly defnyddiwyd y tanwariant yn y pennawd Cynlluniau Ffyniant Gyffredin i ariannu costau tri swyddog a oedd wedi'u cyllidebu yn flaenorol fel rhan o'r gyllideb graidd.

5.4. Defnyddiwyd rhan o'r tanwariant ar y pennawd Gwariant Gweithwyr i ariannu staff ymgynghori dros dro i gwmpasu rôl Rheolwr Rhaglen.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.5. Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £41,730 sy'n ganlyniad i ostyniad yn y gwariant net ar bennawd gwasanaethau cefnogol y Corff Atebol (yr Awdurdod Lletya).

Cyd-bwyllgor

5.6. Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £48,935, sy’n sgil tanwariant ar y Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol, Ffioedd Cyllidol Allanol, Ffioedd Archwilio Allanol a'r Bwrdd Cyflenwi Busnes.

Prosiectau

5.7. Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £65,034 ac mae hyn yn bennaf oherwydd costau a ystyriwyd yn flaenorol o fewn costau Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau yn cael eu cyfalafu. Fodd bynnag, roedd galw mawr am gymorth cyfreithiol allanol i'r prosiectau yn ystod y flwyddyn.

Cynlluniau Grant

5.8. Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn bennaf yn cynnwys cynlluniau Ynni Ardal Leol a Chronfa Ffyniant Gyffredin a ariennir gan grant a derbyniwyd estyniad ar y ddau brosiect tan fis Mawrth 2025, gan arwain at orwariant net o £96,820 yn erbyn y gyllideb flynyddol.

5.9. Mae'r gorwariant ar y prosiect Ynni Ardal Leol yn cael ei ariannu gan y grant dros ben fel y dangosir yn y rhan incwm tra bod y tanwariant ar y cynlluniau Ffyniant Gyffredin yn cael ei

ddefnyddio i ariannu'r gorwariant ar gostau gweithwyr y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ogystal â chyfrannu tuag at gostau gorbenion y Swyddfa Rheoli Portffolio.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn

5.10. Yng nghyfarfod y BUEGC ar 14 Chwefror 2025, cymeradwywyd cais gan y Swyddfa Rheoli Portffolio i drosglwyddo'r llog a dderbyniwyd yn 2024/25 a 2025/26 ar falansau grant Bargen Twf Gogledd Cymru i gronfa benodol i ariannu gofynion ychwanegol y llywodraeth a chostau datblygu prosiectau o 2025/26 a chadw capasiti y Swyddfa Rheoli Portffolio am ddwy flynedd ychwanegol y tu hwnt i Mawrth 2026. Mae'r rhan trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn yn dangos y llog a dderbyniwyd o £2,800,231 a drosglwyddwyd i'r gronfa hon (cronfa adnoddau).

Cyfraniadau Ariannu

5.11. Mae'r prif ffrydiau incwm ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, dyraniad refeniw grant Bargen Twf Gogledd Cymru, grant ynni Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, cyfraniad y CBC ar gyfer secondiad staff a'r gronfa wrth gefn.

5.12. Dyraniad gwreiddiol y grant Bargen Twf Gogledd Cymru oedd £1,100,000, ond oherwydd y sefyllfa tanwariant net o £385,605 ar gyfer 2024/25, mae angen swm gostyngedig o £714,395 er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn. Er bod grant Bargen Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae'r un hyblygrwydd ag awdurdodau lleol wedi cael ei ddefnyddio yn y ffordd y maent yn rheoli eu cyllid cyfalaf, gyda Cyngor Gwynedd yn dyrannu y grant Bargen Twf yn erbyn ei brosiectau cyfalaf ac yn rhyddhau gwerth refeniw cyfatebol i'r BUEGC i ariannu ei wariant refeniw.

Cronfeydd wrth gefn y BUEGC

5.13. Mae Atodiad 2 yn dangos y symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn a'r balansau ar 31 Mawrth 2025.

5.14. Cyfanswm balans y gronfa wrth gefn a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2025 oedd £210,977. Cymeradwyodd y BUEGC yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2025 i £60,990 o’r gronfa yma gael ei ddefnyddio fel rhan o gyllideb 2025/26.

5.15. Balans y gronfa prosiectau ar 31 Mawrth 2025 oedd £29,167. Yn adolygiad Rhagfyr 2024, nodwyd y byddai'r gronfa yn cael ei ddefnyddio i ariannu costau prosiect Ynni Lleol Blaengar a gynhwysir ym mhennawd Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau. Mae'r costau hyn wedi'u cyfalafu ond gan fod yr Achos Busnes Llawn eto i'w gymeradwyo, mae'r costau hyn wedi'u hariannu o'r gronfa prosiectau. Y costau am y flwyddyn oedd £123,133.

5.16. Balans y gronfa llog ar 31 Mawrth 2025 oedd £4,733,483.

5.17. Balans y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2025 oedd £2,800,231 oherwydd trosglwyddo'r llog a dderbyniwyd yn 2024/25 ar balans grant Bargen Twf Gogledd Cymru.

Sefyllfa refeniw (2020/21 – 2024/25)

5.18. Mae Atodiad 3 yn dangos y sefyllfa refeniw dros y pum mlynedd diwethaf ac mae’n cynnwys y gwariant, ffynonellau incwm, sefyllfa alldro yn ogystal â’r symudiad mewn balansau cronfeydd

wrth gefn. Yn 2020/21 a 2021/22 trosglwyddwyd y tanwariant i'r cronfeydd wrth gefn tra yn 2022/23 i 2024/25 defnyddiwyd y tanwariant i leihau dyraniad y grant Bargen Twf ar gyfer y flwyddyn. Yna caiff dyraniad y grant Bargen Twf ei ail-broffilio gydag unrhyw danwariant ei ddefnyddio yn y gyllideb flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

Cyfalaf

5.19. Mae Atodiad 4 yn dangos adolygiad diwedd blwyddyn rhaglen gyfalaf y BUEGC ar gyfer 2024/25.

5.20. Cyfanswm gwariant hyd at 31 Mawrth 2025 yw £15.31m.

5.21. Mae gostyngiad net o £13.3m yn y gwariant yn 2024/25 ac mae hyn oherwydd llithriad ar bedwar phrosiect (Canolfan Prosesu Signal Digidol, Ynni Lleol Blaengar, Porth Caergybi a Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru) a phrosiect Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy wedi cael ei dynnu'n ôl. Fodd bynnag, mae dechrau prosiectau'r Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol, Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter a'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn ystod y flwyddyn wedi dod â rhywfaint o'u gwariant proffil ymlaen.

5.22. Mae'r gyllideb o 2.15% ar gyfer cyllido refeniw yn 2024/25 hefyd wedi gostwng i £0.71m i adlewyrchu y ffigurau alldro refeniw terfynol.

## 6. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

6.1. Cyflwynwyd atodiadau'r adroddiad hwn i'r Bwrdd Portffolio ar 2 Mai 2025 a'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ar 16 Mai 2025.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwilio gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

7.2. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn mynnu bod yr holl Gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r Incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Sefyllfa Alldro Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 |
| Atodiad 2 | Cronfeydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Atodiad 3 | Sefyllfa Refeniw 2020/21 – 2024/25 |
| Atodiad 4 | Sefyllfa Cyfalaf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

Sefyllfa Ariannol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Mawrth 2025)

Atodiad 1

| Gwariant | Cyllideb (£) | Sefyllfa Terfynol 2024/25 (£) | Gor / (Tan)wariant (£) |
|---|---|---|---|
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 1,395,940 | 1,304,273 | (91,667) |
| Staff Ymgynghori | 0 | 24,570 | 24,570 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 3,000 | 3,122 | 122 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 11,000 | 3,886 | (7,114) |
| Hyfforddiant | 11,000 | 8,758 | (2,242) |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 10,000 | 1,382 | (8,618) |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 25,000 | 15,614 | (9,386) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 11,000 | 23,216 | 12,216 |
| Eiddo | 36,000 | 35,679 | (321) |
| Datblygu Portffolio a Rhaglenni | 30,000 | 37,300 | 7,300 |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio** | **1,532,940** | **1,457,800** | **(75,140)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 110,860 | 63,319 | (47,541) |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 29,690 | 29,090 | (600) |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 45,700 | 47,656 | 1,956 |
| Technoleg Gwybodaeth | 21,920 | 26,039 | 4,119 |
| Yswiriant | 4,130 | 4,466 | 336 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **212,300** | **170,570** | **(41,730)** |
| **Cyd-bwyllgor** | | | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 | 4,400 | (13,600) |
| Ffioedd Cyllidol Allanol | 10,000 | 4,100 | (5,900) |
| Ffi Archwilio Allanol | 27,520 | 13,085 | (14,435) |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 15,000 | 0 | (15,000) |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **70,520** | **21,585** | **(48,935)** |
| **Prosiectau** | | | |
| Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau | 200,000 | 70,046 | (129,954) |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 100,000 | 212,920 | 112,920 |
| Cefnogaeth Cyllidol Allanol | 0 | 2,250 | 2,250 |
| Cefnogaeth Caffael Allanol | 35,000 | 0 | (35,000) |
| Sicrwydd | 40,000 | 24,750 | (15,250) |
| **Cyfanswm Prosiectau** | **375,000** | **309,966** | **(65,034)** |
| **Cynlluniau grant** | | | |
| Gwariant gweithwyr - Prosiect Ynni Ardal Leol | 99,420 | 141,407 | 41,987 |
| Cynlluniau Ynni Ardal Lleol | 0 | 34,230 | 34,230 |
| Gwariant gweithwyr - Cronfa Ffyniant Gyffredin | 122,640 | 160,416 | 37,776 |
| Cynlluniau Ffyniant Gyffredin | 550,500 | 527,544 | (22,956) |
| Ymchwil Statws Bwyd Amaeth | 0 | 5,783 | 5,783 |
| **Cyfanswm Cynlluniau grantiau** | **772,560** | **869,380** | **96,820** |
| **Trosglwyddiadau i gronfeydd** | | | |
| Llog ar falansau | 0 | 2,800,231 | 2,800,231 |
| **Cyfanswm trosglwyddiadau i gronfeydd** | **0** | **2,800,231** | **2,800,231** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,963,320** | **5,629,532** | **2,666,212** |

**Sefyllfa Ariannol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Mawrth 2025)**

| | Cyllideb | Sefyllfa Terfynol 2024/25 | Gor / (Tan)wariant |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Cyfraniadau Ariannu** | | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (57,880) | (57,880) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (57,880) | (57,880) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (57,880) | (57,880) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (57,880) | (57,880) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (57,880) | (57,880) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (57,880) | (57,880) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (28,950) | (28,950) | 0 |
| Prifysgol Wrecsam | (28,950) | (28,950) | 0 |
| Coleg Cambria | (28,950) | (28,950) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (28,950) | (28,950) | 0 |
| **Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol** | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | (40,000) | 0 |
| **Eraill** | | | |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru | (1,100,000) | (1,100,000) | 0 |
| Grant Ynni Llywodraeth Cymru | (106,180) | (186,054) | (79,874) |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | 0 | (84,008) | (84,008) |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG | (973,600) | (1,059,095) | (85,495) |
| Grant Llywodraeth Cymru - Lleoliad Myfyrwyr | (13,510) | (8,651) | 4,859 |
| Cyfraniadau Ymchwil Statws Bwyd Amaeth | 0 | (5,783) | (5,783) |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gofal Cymdeithasol Cymru | 0 | (1,285) | (1,285) |
| Cronfa Prosiectau | 0 | 0 | 0 |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | (66,950) | (66,950) | 0 |
| Llog | 0 | (2,800,231) | (2,800,231) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,963,320)** | **(6,015,137)** | **(3,051,817)** |
| **Gor / (Tan) wariant Net** | **0** | **(385,605)** | **(385,605)** |

**Sefyllfa cronfeydd y BUEGC** **Atodiad 2**

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2024** | **(277,927)** |
| Dyraniad Cyllideb 2024/25 | 66,950 |
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2025** | **(210,977)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa prosiectau ar 31 Mawrth 2024** | **(152,300)** |
| Defnydd yn 2024/25 | 123,133 |
| **Cyfanswm y gronfa prosiectau ar 31 Mawrth 2025** | **(29,167)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2024** | **(4,733,483)** |
| Cyfraniadau 2024/25 | 0 |
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2025** | **(4,733,483)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2024** | **0** |
| Llog ar falansau 2024/25 | (2,800,231) |
| **Cyfanswm y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2025** | **(2,800,231)** |

| Sefyllfa Refeniw 2020/21 - 2024/25 | | | | | Atodiad 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Gwariant** | | | | | |
| Swyddfa Rheoli Portffolio | 827,449 | 1,383,698 | 1,503,487 | 1,380,839 | 1,457,800 |
| Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol | 126,955 | 141,456 | 142,779 | 161,779 | 170,570 |
| Cyd-Bwyllgor | 42,424 | 13,257 | 20,309 | 45,335 | 21,585 |
| Prosiectau | 116,817 | 225,652 | 493,210 | 455,909 | 309,966 |
| Cynlluniau grant | 0 | 650,879 | 449,008 | 608,520 | 869,380 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **1,113,645** | **2,414,942** | **2,608,793** | **2,652,382** | **2,829,301** |
| | | | | | |
| **Incwm** | | | | | |
| Cyfraniadau Partneriaid | (400,000) | (400,000) | (416,000) | (442,820) | (463,080) |
| Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol | (240,000) | (240,000) | (240,000) | (240,000) | (240,000) |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru | 0 | (218,773) | (286,052) | (561,454) | (714,395) |
| Grant Ynni Llywodraeth Cymru | (24,954) | 0 | (201,729) | (599,683) | (186,054) |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig | 0 | 0 | (70,345) | (70,239) | (84,008) |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG | 0 | 0 | (14,619) | (181,837) | (1,059,095) |
| Cronfa Cymdeithasol Ewropeaidd | (561,195) | (808,304) | (987,196) | (232,829) | 0 |
| Cronfa Adfywio Cymunedol | 0 | (135,895) | (241,339) | 0 | 0 |
| Grant Lleoliad Myfyrwyr | 0 | 0 | 0 | (15,349) | (8,651) |
| Grant arolwg cwmpas ffonau symudol | 0 | (14,694) | (14,694) | 0 | 0 |
| Grant Datcarboneiddio | (67,300) | (500,290) | 0 | 0 | 0 |
| Grant Fframwaith Economaidd | 0 | (195,000) | 0 | 0 | 0 |
| Grant Bil Trafnidiaeth Cyhoeddus Cymru | (19,318) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grant Effaith Economaidd Cofid-19 | (7,332) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau | 0 | 0 | (854) | (22,379) | (7,068) |
| Ad-daliad Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol | (27,107) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | 0 | (96,672) | (127,700) | (274,100) | (66,950) |
| Llog | (7,462) | (314) | (8,265) | (11,692) | 0 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Incwm** | **(1,354,668)** | **(2,609,942)** | **(2,608,793)** | **(2,652,382)** | **(2,829,301)** |
| | | | | | |
| **Trosglwyddiad i reserfau** | **241,023** | **195,000** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | |
| **Sefyllfa Net Niwtral** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | |
| **Gor /( Tanwariant) cyn addasiad i greu y sefyllfa niwtral** | **(241,023)** | **(318,328)** | **(463,948)** | **(460,546)** | **(385,605)** |
| | | | | | |
| **Balans agoriadol y gronfa wrth gefn** | **(497,529)** | **(738,552)** | **(637,027)** | **(552,027)** | **(277,927)** |
| Trosglwyddiad i gronfa | (241,023) | (318,328) | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddiad o gronfa | 0 | 415,000 | 85,000 | 274,100 | 66,950 |
| Trosglwyddiad i'r gronfa llog | 0 | 4,853 | 0 | 0 | 0 |
| **Balans cau y gronfa wrth gefn** | **(738,552)** | **(637,027)** | **(552,027)** | **(277,927)** | **(210,977)** |
| | | | | | |
| **Balans agoriadol y gronfa prosiectau** | **0** | **0** | **(195,000)** | **(152,300)** | **(152,300)** |
| Trosglwyddiad i gronfa | 0 | (195,000) | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddiad o gronfa | 0 | 0 | 42,700 | 0 | 123,133 |
| **Balans cau y gronfa prosiectau** | **0** | **(195,000)** | **(152,300)** | **(152,300)** | **(29,167)** |
| | | | | | |
| **Balans agoriadol y gronfa llog** | **0** | **0** | **(699,145)** | **(1,667,882)** | **(4,733,483)** |
| Trosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn | 0 | (4,853) | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau llog partneriaid | 0 | (678,020) | (216,370) | (251,040) | 0 |
| Llog ar falansau | 0 | (16,272) | (752,367) | (2,814,561) | 0 |
| **Balans cau y gronfa llog** | **0** | **(699,145)** | **(1,667,882)** | **(4,733,483)** | **(4,733,483)** |
| | | | | | |
| **Balans agoriadol y gronfa adnoddau** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Llog ar falansau | 0 | 0 | 0 | 0 | (2,800,231) |
| **Balans cau y gronfa adnoddau** | **0** | **0** | **0** | **0** | **(2,800,231)** |

**Sefyllfa Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25** **Atodiad 4**

| Rhaglen / Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) | 2027/28 (£m) | 2028/29 (£m) | 2029/30 (£m) | 2030/31 (£m) | 2031/32 (£m) | 2032/33 (£m) | 2033/34 (£m) | 2034/35 (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Digidol** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.37 | 0.00 | 0.81 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.98 | 3.27 | 3.27 | 0.94 | 0.41 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Campws Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.80 | 5.10 | 9.80 | 4.98 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Cysylltu ychydig ganrannau olaf | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.32 | 1.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.17 |
| **Ynni carbon isel** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 | 4.44 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Egni (Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel) | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 1.97 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 | 2.50 | 5.00 | 5.70 | 5.00 | 0.00 | 19.70 |
| H2 Newydd | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.00 | 2.30 | 2.30 | 3.10 | 1.53 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| Ynni Lleol Blaengar | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.00 | 9.25 | 9.25 | 3.13 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| Prosiect wedi'i dynnu'n ôl<br>(Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy) | amh | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.20 | 3.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.40 |
| Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.90 | 1.90 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 |
| **Tir ac eiddo** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.49 | 11.49 | 11.49 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| Safle Strategol Warren Hall | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.38 | 7.39 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.47 | 3.47 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| Safle Strategol Parc Bryn Cegin | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.93 | 1.98 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| Porth Gorllewinol, Wrecsam | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.48 | 4.48 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| Stiwdio Kinmel | Stage Fifty | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.40 | 3.40 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.80 |
| Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.79 | 2.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.79 |
| **Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.58 | 2.38 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.75 | 9.06 | 1.74 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.55 |
| **Bwyd-amaeth a thwristiaeth** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Hwb Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.20 | 4.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.00 | 3.42 | 0.01 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.30 | 3.70 | 0.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.20 |
| 2.15% ar gyfer ariannu cyllideb refeniw y BUEGC | | 0.22 | 0.28 | 0.56 | 0.71 | 1.54 | 0.66 | 0.46 | 0.15 | 0.15 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.07 | 0.05 | 5.15 |
| **Cyfanswm Rhaglen** | | **0.34** | **1.94** | **1.68** | **11.35** | **30.77** | **40.86** | **59.28** | **42.58** | **22.45** | **8.10** | **8.20** | **7.33** | **5.07** | **0.05** | **240.00** |
| **Cyllideb wedi ei chymeradwyo (Mawrth 2024)** | | **0.34** | **1.94** | **1.05** | **24.67** | **58.68** | **68.53** | **44.81** | **19.71** | **1.65** | **2.60** | **5.10** | **5.80** | **5.07** | **0.05** | **240.00** |
| **Gwahaniaeth** | | **0.00** | **0.00** | **0.63** | **(13.32)** | **(27.91)** | **(27.67)** | **14.47** | **22.87** | **20.80** | **5.50** | **3.10** | **1.53** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| **Gwariant cronnus** | | **0.34** | **2.28** | **3.96** | **15.31** | **46.08** | **86.94** | **146.22** | **188.80** | **211.25** | **219.35** | **227.55** | **234.88** | **239.95** | **240.00** | **240.00** |

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

13 Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad Alldro a Ffurflen Flynyddol Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2024/25 |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r sefyllfa derfynol ar gyfer 2024/25 i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) a chael cymeradwyaeth y Ffurflen Flynyddol swyddogol ar gyfer 2024/25.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi a derbyn gwariant ac incwm blynyddol y CBC ar gyfer 2024/25 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.

2.2. Cael cymeradwyaeth y CBC i'r tanwariant yn 2024/25 gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

2.3. Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol y CBC ar gyfer 2024/25 (yn amodol ar Archwiliad Allanol), yn unol â'r amserlen statudol o 30 Mehefin 2025. Mae wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd fel Swyddog Cyllid Statudol y CBC (Atodiad 2).

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Hysbysu'r CBC o'i sefyllfa ariannol ar gyfer 2024/25 ac i gydymffurfio â'r gofynion statudol ynghylch cwblhau'r Ffurflen Flynyddol.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2024, cymeradwyodd y CBC ei gyllideb ar gyfer 2024/25.

4.2. Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen unrhyw newidiadau, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i'r CBC maes o law.

4.3. Ar ôl archwilio ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

### 5.1. Gwariant 2024/25 fesul pennawd

5.1.1. Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb flynyddol ar gyfer 2024/25 ac mae'r rhain yn cyfateb i'r ffigurau yn y Ffurflen Flynyddol fel y dangosir yn Atodiad 2.

5.1.2. Y sefyllfa alldro net terfynol ar gyfer 2024/25 oedd tanwariant o £401,598 ac mae hyn wedi cynyddu o'r tanwariant o £270,550 a ragwelwyd yn adolygiad diwedd Rhagfyr 2024. Ceisir cymeradwyaeth i drosglwyddo'r tanwariant hwn i'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi. Mae'r CBC eisoes wedi cymeradwyo i £564,740 o'r gronfa hon gael ei ddefnyddio fel rhan o gyllideb 2025/26 yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2025.

#### Gweithwyr

5.1.3. Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £333,674.

5.1.4. Mae'r gwariant ar yr is-bennawd Trafnidiaeth yn cynnwys costau secondiad y Rheolwr Rhaglen Gweithredu gan Lywodraeth Cymru a chostau ar gyfer y Swyddog Arweiniol Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol (1 diwrnod yr wythnos). Mae'r gwariant ar yr is-bennawd CBC yn cynnwys costau ar gyfer y Prif Weithredwr dros dro (2 ddiwrnod yr wythnos) ynghyd â chefnogaeth y Cynorthwyydd Personol (1 diwrnod yr wythnos).

5.1.5. Mae cost lwfans yr aelodau lleyg yn ymwneud â chyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal o 2025/26 ymlaen.

#### Teithio

5.1.6. Nid yw'r lwfans teithio a'r gyllideb cynhaliaeth staff wedi'i defnyddio yn 2024/25 sy'n gadael tanwariant o £6,000 am y flwyddyn.

#### Cyflenwadau a gwasanaethau

5.1.7. Roedd tanwariant net o £129,140 yn erbyn y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau ar gyfer 2024/25.

5.1.8. Roedd gorwariant o £7,502 yn y pennawd cyflenwadau amrywiol oherwydd costau hyfforddi ac argraffu sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

5.1.9. Mae ffioedd Archwilio Cymru yn dangos yn negyddol ar gyfer 2024/25 gan fod y ffioedd a gyfrifwyd amdanynt yn y blynyddoedd blaenorol yn uwch na'r symiau gwirioneddol. Yn ogystal, mae angen Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2024/25 yn hytrach na set lawn o gyfrifon oherwydd nad yw'r trosiant yn uwch na'r trothwy o £2.5m.

5.1.10. Y gwariant ar y pennawd ymgynghorwyr allanol ar gyfer y flwyddyn oedd £222,231 ac ariannwyd £180,517 o'r gwariant hwn gan Grant Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Disgwylir i wariant ymgynghorwyr allanol ar gyfer Cynllunio Strategol ddechrau yn 2025/26.

5.1.11. Mae tanwariant o £46,763 ar y costau yswiriant ac mae hyn oherwydd bod polisi yswiriant interim ar waith ar gyfer 2024/25, gyda'r polisi yswiriant llawn yn dechrau ym mis Ebrill 2025.

### Gwasanaethau Cefnogol

5.1.12. Y tanwariant terfynol ar bennawd y gwasanaethau cefnogol yw £7,230.

5.1.13. Mae'r gorwariant ar y pennawd cefnogaeth gorfforaethol yn bennaf oherwydd costau cyfieithu. Bydd y tanwariant ar y pennawd cyfreithiol yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhan o'r gorwariant ar y costau cyfreithiol a democrataidd gan ymgynghorwyr allanol a ddangosir o dan costau sefydlu.

### Costau sefydlu

5.1.14. Y gorwariant net ar y pennawd costau sefydlu yw £195,753.

5.1.15. Oherwydd yr oedi wrth drosglwyddo swyddogaethau'r Cynllun Twf i'r CBC i 1 Ebrill 2025, y costau cyfreithiol a democrataidd ac ymgynghorwyr allanol sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad oedd £262,686 o'i gymharu â'r gyllideb o £50,000.

5.1.16. Mae'r gwariant o £125,886 ar gostau cyfreithiol a democrataidd yn cynnwys costau cwmni cyfreithiol allanol yn ogystal ag ymgynghorydd cyfreithiol ac ymgynghorydd democrataidd a gomisiynwyd i ddarparu cyngor a chymorth arbenigol ar sefydlu'r CBC.

5.1.17. Mae'r £136,800 ar ymgynghorwyr allanol yn ymwneud â chostau rheoli prosiectau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r CBC.

### Incwm

5.1.18. Roedd y CBC yn llwyddiannus yn ei gais i Lywodraeth Cymru am gyllid tuag at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a dyfarnwyd £125k yn 2023/24 a £100k arall yn 2024/25. Dangosir £180,517 o'r incwm grant hwn yn 2024/25, gyda £80,517 o'r incwm grant yn ariannu costau ymgynghorydd allanol a gomisiynwyd yn 2023/24 ond ni chwblhawyd y gwaith tan fis Ebrill 2024.

5.1.19. Ar ôl cadarnhau yng Nghyllideb Hydref 2024 y bydd y rhaglen Parth Buddsoddi yn parhau ledled y DG, mae’r CBC wedi bod yn gweithio ar ddogfennau’r Porth. Mae dyraniad blynyddol o £640k i ariannu costau refeniw, a bydd traean o'r gyllideb hon yn cael ei dyrannu i'r CBC. Bydd yr hawliad cyntaf yn cynnwys y costau o £83k a gafwyd yn 2024/25, ac er bod Cynghorau Sir Wrecsam a Sir y Fflint rhyngddynt wedi gwarantu £50,000 o'r gwariant hwn, bydd cronfa wrth gefn y CBC yn cael ei defnyddio i ariannu'r gwariant hwn yn 2024/25 a bydd yn cael ei ad-dalu unwaith y bydd yr incwm grant yn cael ei gymeradwyo gan y Llywodraeth.

5.1.20. Y llog ar falansau ar gyfer 2024/25 oedd £57,723.

## 5.2. Cyfraniadau Awdurdodau Cyfansoddol

5.2.1. Cymeradwywyd yr ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2024/25 gan y CBC yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2024.

## 5.3. Gronfa

5.3.1. Ar 1 Ebrill 2024, roedd £892k yn y gronfa wrth gefn a chymeradwywyd £98k o'r gronfa hon i'w ddefnyddio ar gyfer cyllideb 2024/25 a £100k i ariannu gwariant y Parth Buddsoddi nes

bod incwm grant y Llywodraeth yn cael ei gymeradwyo. Oherwydd y tanwariant yn 2024/25, mae'r balans y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2025 wedi cynyddu i £1,113k.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforaethol, oherwydd nad yw ei drosiant yn fwy na £2.5m yn 2024/25, baratoi ffurflen flynyddol a rhaid paratoi hyn yn unol ag arferion priodol fel y nodir gan ddeddfwriaeth.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Sefyllfa Alldro Refeniw Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2024/25

Atodiad 2: Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

---

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

**Sefyllfa Alldro Refeniw Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2024/25** **Atodiad 1**

| | Cyllideb wreiddiol | | | | | Sefyllfa Terfynol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Parth Buddsoddi | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Cyllideb | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Parth Buddsoddi | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Gwariant | Gorwaraint / (Tanwariant) |
| **Gwariant** | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) |
| **Gweithwyr** | | | | | | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr | 222,440 | 111,540 | 0 | 95,380 | 429,360 | 0 | 28,196 | 0 | 72,370 | 100,566 | (328,794) |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 0 | 4,880 | 4,880 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (4,880) |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **222,440** | **111,540** | **0** | **100,260** | **434,240** | **0** | **28,196** | **0** | **72,370** | **100,566** | **(333,674)** |
| **Teithio** | | | | | | | | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 3,000 | 2,000 | 0 | 1,000 | 6,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (6,000) |
| **Cyfanswm Teithio** | **3,000** | **2,000** | **0** | **1,000** | **6,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **(6,000)** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | | | | | | | | |
| Offer a chyfarpar | 4,500 | 3,000 | 0 | 0 | 7,500 | 680 | 0 | 0 | 1,414 | 2,094 | (5,406) |
| Cyflenwadau amrywiol | 1,000 | 1,000 | 0 | 1,000 | 3,000 | 21 | 4,690 | 0 | 5,791 | 10,502 | 7,502 |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 770 | 770 | 0 | 3,830 | 5,370 | 90 | 0 | 0 | 0 | 90 | (5,280) |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 0 | 21,100 | 21,100 | 0 | 0 | 0 | (5,154) | (5,154) | (26,254) |
| Ymgynghorwyr allanol | 132,500 | 132,670 | 0 | 10,000 | 275,170 | 0 | 222,231 | 0 | 0 | 222,231 | (52,939) |
| Yswiriant | 15,000 | 15,000 | 0 | 30,000 | 60,000 | 5,600 | 5,600 | 0 | 2,037 | 13,237 | (46,763) |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **153,770** | **152,440** | **0** | **65,930** | **372,140** | **6,391** | **232,521** | **0** | **4,088** | **243,000** | **(129,140)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 0 | 0 | 0 | 28,210 | 28,210 | 0 | 0 | 0 | 26,211 | 26,211 | (1,999) |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 7,500 | 7,500 | 0 | 15,000 | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 18,116 | 18,116 | (11,884) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,330 | 7,730 | 0 | 19,620 | 35,680 | 0 | 12,315 | 0 | 36,050 | 48,365 | 12,685 |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,310 | 1,540 | 0 | 3,120 | 6,970 | 0 | 0 | 0 | 938 | 938 | (6,032) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **18,140** | **16,770** | **0** | **65,950** | **100,860** | **0** | **12,315** | **0** | **81,315** | **93,630** | **(7,230)** |
| **Costau sefydlu** | | | | | | | | | | | |
| Cyfreithiol a Democrataidd | 0 | 0 | 0 | 50,000 | 50,000 | 13,571 | 13,571 | 0 | 98,744 | 125,886 | 75,886 |
| Ymgynghorwyr Allanol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13,680 | 54,720 | 0 | 68,400 | 136,800 | 136,800 |
| Parth Buddsoddi | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 100,000 | 0 | 0 | 83,067 | 0 | 83,067 | (16,933) |
| **Cyfanswm Costau sefydlu** | **0** | **0** | **100,000** | **50,000** | **150,000** | **27,251** | **68,291** | **83,067** | **167,144** | **345,753** | **195,753** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **397,350** | **282,750** | **100,000** | **283,140** | **1,063,240** | **33,642** | **341,323** | **83,067** | **324,917** | **782,949** | **(280,291)** |
| Grant Llywodraeth Cymru | 0 | (100,000) | 0 | 0 | **(100,000)** | 0 | (180,517) | 0 | 0 | **(180,517)** | (80,517) |
| Llog | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | (57,723) | **(57,723)** | (57,723) |
| Cyfraniad o gronfeydd | (26,100) | 0 | (100,000) | (72,320) | **(198,420)** | (26,100) | 0 | (83,067) | (72,320) | **(181,487)** | 16,933 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **371,250** | **182,750** | **0** | **210,820** | **764,820** | **7,542** | **160,806** | **0** | **194,874** | **363,222** | **(401,598)** |

| Incwm | Cynllunio Strategol (£) | Swyddogaethau eraill (£) | Cyfanswm Ardoll (£) | Cynllunio Strategol (£) | Swyddogaethau eraill (£) | Cyfanswm Ardoll (£) | Gwahaniaeth (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Partneriaid drwy ardoll** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (58,510) | (65,370) | (123,880) | (58,510) | (65,370) | (123,880) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (52,080) | (55,220) | (107,300) | (52,080) | (55,220) | (107,300) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (83,780) | (88,830) | (172,610) | (83,780) | (88,830) | (172,610) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (53,870) | (67,260) | (121,130) | (53,870) | (67,260) | (121,130) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (37,230) | (39,480) | (76,710) | (37,230) | (39,480) | (76,710) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (73,010) | (77,410) | (150,420) | (73,010) | (77,410) | (150,420) | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) | (12,770) | | (12,770) | (12,770) | | (12,770) | 0 |
| **Cyfanswm Cyllideb Incwm** | **(371,250)** | **(393,570)** | **(764,820)** | **(371,250)** | **(393,570)** | **(764,820)** | **0** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31/03/24** | **892,560** |
| **Cyllideb 2024/25** | (98,420) |
| **Parth Buddsoddi** | (83,067) |
| **Tanwariant 2024/25** | 401,598 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31/03/25** | **1,112,671** |

# Ffurflen Flynyddol Cydbwyllgorau Llai yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2025

## Datganiadau cyfrifyddu 2024-25 ar gyfer:

**Enw'r Pwyllgor:** **Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**

| | Diwedd y flwyddyn | | Nodiadau ac arweiniad |
|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2024 (£) | 31 Mawrth 2025 (£) | **Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf.** **Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.** |
| **Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau** | | | |
| **1.** 1. Balansau a ddygwyd ymlaen | 238,098 | 892,560 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| **2.** (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | 764,820 | 764,820 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff. |
| **3.** (+) Cyfanswm derbynebau eraill | 47,344 | 238,240 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| **4.** (-) Costau staff | -92,514 | -100,566 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, lwfansau trethadwy, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a chostau terfynu. Eithriwch adalu mân dreuliau. |
| **5.** (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyca allanol (os o gwbl). |
| **6.** (-) Cyfanswm taliadau eraill | -65,188 | -682,383 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5). |
| **7.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 892,560 | 1,112,671 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6). |
| **Datganiad o falansau** | | | |
| **8.** (+) Dyledwyr | 294,873 | 90,315 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Rhowch werth dyledion sy'n ddyledus i'r Pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **9.** (+) Cyfanswm arian a buddsoddiadau | 852,363 | 1,434,437 | **Yr holl gyfrifon:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol ac adnau, daliadau arian parod a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn gytuno â'r balans llyfr arian parod wedi'i gymodi yn unol â'r cysoniad banc. |
| **10.** (-) Credydwyr | -254,676 | -412,081 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Rhowch werth yr arian sy'n ddyledus gan y Pwyllgor (ac eithrio benthyca) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **11.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 892,560 | 1,112,671 | **Dylai cyfanswm balansau gydradd llinell 7 uchod:** Rhowch gyfanswm (8 + 9-10). |
| **12.** Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 0 | 0 | Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiad yr holl asedau sefydlog ac unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |
| **13.** Cyfanswm benthyca | 0 | 0 | Y balans cyfalaf sy'n weddill ar 31 Mawrth o'r holl fenthyciadau gan drydydd partïon (gan gynnwys PWLB). |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod fel aelodau'r Pwyllgor ein cyfrifoldeb dros sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, mewn perthynas â'r datganiadau cyfrifeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | **Cytûn?** | | **Mae 'IE' yn golygu bod y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:** | **Cyf PG** |
|---|---|---|---|---|
| | **Ie** | **Na*** | | |
| **1.** Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:<br>• rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a<br>• paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. | Ie | | Mae'n pennu ei gyllideb yn briodol ac yn rheoli ei harian ac yn paratoi ac yn cymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y'u rhagnodir gan y gyfraith. | 6, 12 |
| **2.** Cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac wedi adolygu ei effeithiolrwydd. | Ie | | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu'r arian a'r adnoddau cyhoeddus wrth ei wefru. | 6, 7 |
| **3.** Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ein hunain nad oes unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor gynnal ei fusnes neu ei sefyllfa ariannol.. | Ie | | Dim ond pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac mae wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau yn y ffordd y mae wedi gwneud hynny. | 6 |
| **4.** Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | Ie | | Wedi rhoi'r cyfle i bob person sydd â diddordeb archwilio cyfrifon y Pwyllgor fel y nodir yn yr hysbysiad archwilio. | 6, 23 |
| **5.** Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor a chymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle bo angen. | Ie | | Ystyried y risgiau ariannol ac eraill y mae'n eu hwynebu wrth weithredu'r Pwyllgor ac mae wedi delio â nhw'n iawn. | 6, 9 |
| **6.** Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'r cofnodion cyfrifeg a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi derbyn adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | Ie | | Wedi'i drefnu i berson cymwys, sy'n annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ynghylch a yw'r rhain yn diwallu anghenion y Pwyllgor | 6, 8 |
| **7.** Ystyried a yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, sy'n digwydd naill ai yn ystod neu ar ôl diwedd y flwyddyn, yn cael effaith ariannol ar y Pwyllgor a, lle bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | Ie | | Datgelu popeth y dylai ei gael am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ôl diwedd y flwyddyn os yw'n berthnasol. | 6 |
| **8.** Cymryd camau priodol ar yr holl faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol o archwilio mewnol ac allanol. | Ie | | Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â materion/gwendidau a ddygir i'w sylw gan yr archwilwyr mewnol ac allanol. | 6, 8, 23 |

* Rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar ddalen ar wahân ar gyfer pob ymateb 'na' a roddir; a disgrifio pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Nodiadau datgelu ychwanegol*

| **Darperir y wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiad cyfrifeg a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol** |
|---|
| **1.** |
| **2.** |
| **3.** |

* Cynhwyswch yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol y mae'r Pwyllgor o'r farn eu bod yn angenrheidiol i gynorthwyo dealltwriaeth y darllenydd o'r datganiad cyfrifeg a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifeg a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

| **Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol** | **Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor** |
|---|---|
| Rwy'n ardystio bod y datganiadau cyfrifeg a gynhwysir yn y Ffurflen Flynyddol hon yn cyflwyno sefyllfa ariannol y Pwyllgor 'i incwm a'i wariant, neu gyflwyno derbynebau a thaliadau yn briodol, yn ôl y digwydd, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. | Rwy'n cadarnhau bod y datganiadau cyfrifeg hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan funud:<br>**Cyfeirnod cofnodion:** |
| **Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol:**  | **Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:** |
| **Enw: Dewi Aeron Morgan** | **Enw:** |
| **Dyddiad: 04/06/2025** | **Dyddiad:** |

## Adroddiad archwilio mewnol blynyddol i:

| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor:** | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru** |

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dethol o gydymffurfiad â gweithdrefnau a rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r archwiliad mewnol wedi'i gynnal yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, crynhoir casgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Isod mae amcanion rheolaeth fewnol a'r casgliadau archwilio mewnol ynghylch a oedd yr amcanion rheoli canlynol yn cael eu cyflawni trwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

| | Cytûn? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen os cyflwynir adroddiad archwilio mewnol manwl i'r Pwyllgor) |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ie** | **Na*** | **Amh** | **Heb ei gynnwys*** | |
| **1.** Mae llyfrau cyfrif priodol wedi cael eu cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **2.** Mae rheoliadau ariannol wedi'u bodloni, cafodd taliadau eu cefnogi gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a chyfrifwyd TAW yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **3.** Asesodd y Pwyllgor y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygu digonolrwydd trefniadau i reoli'r rhain. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **4.** Roedd y gofyniad praesept/ardoll / galw adnoddau blynyddol yn deillio o broses gyllidebol ddigonol, monitro cynnydd yn erbyn y gyllideb yn rheolaidd, ac roedd cronfeydd wrth gefn yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **5.** Derbyniwyd incwm disgwyliedig yn llawn, yn seiliedig ar brisiau cywir, wedi'i gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a chyfrifwyd TAW yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **6.** Cefnogwyd taliadau arian mân yn iawn gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a chyfrifwyd TAW yn briodol. | | | ✓ | | Mewnosodwch destun |
| **7.** Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau munud, a rhoddwyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **8.** Roedd cofrestrau asedau a buddsoddi yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn. | | | ✓ | | Mewnosodwch destun |

| | Cytûn? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen os cyflwynir adroddiad archwilio mewnol manwl i'r Pwyllgor) |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ie** | **Na*** | **Amh** | **Heb ei gynnwys*** | |
| **9.** Gwnaed cysoniadau cyfrif banc cyfnodol a diwedd blwyddyn yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |
| **10**. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail gyfrifyddu gywir (derbynebau a thaliadau/incwm a gwariant), yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a lle bo'n briodol, cofnodwyd dyledwyr a chredydwyr yn briodol. | ✓ | | | | Mewnosodwch destun |

| **Ar gyfer unrhyw ardaloedd risg a nodwyd gan y Pwyllgor (rhestrwch unrhyw ardaloedd risg eraill isod neu ar daflenni ar wahân os oes angen) bod rheolaethau digonol yn bodoli:** | Cytûn? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen os cyflwynir adroddiad archwilio mewnol manwl i'r Pwyllgor) |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ie** | **Na*** | **Amh** | **Heb ei gynnwys*** | |
| **12.** | | | | | |
| **13.** | | | | | |
| **14.** | | | | | |

* Os mai 'na' yw'r ymateb, nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid mewn rheolaeth a nodwyd (ychwanegwch daflenni ar wahân os oes angen).

** Os na chynhwysir yr ymateb, nodwch pryd y gwnaed y gwaith archwilio mewnol diweddaraf yn y maes hwn a phryd y bwriedir gwneud y gwaith archwilio mewnol nesaf, neu os nad oes angen sylw, rhaid i archwiliad mewnol egluro pam lai.

Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn tynnu sylw at sylw'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor dyddiedig Mai 2025.

## Cadarnhad archwilio mewnol

Rwy'n cadarnhau nad ydw i, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi bod yn rhan o rôl reoli neu weinyddol o fewn y Pwyllgor (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r Pwyllgor yn ystod blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25. Rwyf hefyd yn cadarnhau nad oes gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â fy apwyntiad.

| |
|---|
| **Enw'r person a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Bleddyn Rhys** |
| **Llofnod y person a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** *Bleddyn Rhys* |
| **Dyddiad: 04/06/2025** |

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

13 Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2025/26 |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CJC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer 2025/26.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2025/26.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn ddyddiol ac fe dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Cyllid yng Nghyngor Gwynedd ac mae'n ofynnol iddynt weithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys sydd wedi ei gymeradwyo.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y CBC, gan reoli'r risgiau cysylltiedig.

4.2. Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) i'r CBC ac felly mae'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yn cynnwys balansau arian y CBC a'r BUEGC.

## 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Mae'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2025/26 wedi ei seilio ar Côd CIPFA a'r Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol gan Llywodraeth Cymru ac felly yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y CBC o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

ATODIADAU:

**Atodiad 1** Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2025/26

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

## Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2025/26

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Rheolaeth trysorlys yw rheolaeth llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r risgiau cysylltiol. Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) yn buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly bydd yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith refeniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwyllog y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys y CBC yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2021* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r CBC gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyd- bwyllgor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyd- bwyllgor dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

**1.3** Yn unol ag Arweiniad LlC, gofynnir i'r CBC gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau neu yn lefel ei balans buddsoddi.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Cefndir Economaidd

Bydd effaith Cyllideb Hydref y llywodraeth ar y DU, toriadau cyfraddau llog disgwyliedig arafach, hwb tymor byr i dwf economaidd ond ychydig wannach dros y tymor canolig, ynghyd ag effaith ail dymor yr Arlywydd-ethol Trump yn y swydd ac ansicrwydd ynghylch polisi domestig a thramor yr Unol Daleithiau, yn ddylanwadau mawr ar strategaeth rheolaeth trysorlys y CBC ar gyfer 2025/26.

### 2.2 Rhagolygon cyfraddau llog

Mae ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y CBC, Arlingclose, yn disgwyl i Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr barhau i ostwng y Cyfradd Banc trwy 2025, gan ostwng i oddeutu 3.75% erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/26. Mae effaith Cyllideb yr Hydref ar dwf economaidd a chwyddiant wedi lleihau'r disgwyliadau

blaenorol o ran cyflymder toriadau cyfraddau yn ogystal â gwthio'r gyfradd i fyny ar ddiwedd y cylch llacio.

## 3. Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys

**3.1** Bydd gan y CBC gronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn y gwariant. Roedd y balans ar 31ain Mawrth 2025 yn £55.4m a gellir gweld y lefelau a ddisgwylir ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn y tabl isod.

**Tabl 1: Crynodeb mantolen a'r rhagolwg**

| | 31.3.25 Gwir £m | 31.3.26 Gwir £m | 31.3.27 Rhagolwg £m | 31.3.28 Rhagolwg £m | 31.3.29 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddiadau Trysorlys** | **55.4** | **51.9** | **37.0** | **3.0** | **(12.0)** |

### 3.2 Amcanion

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y CBC wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy buddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyd- bwyllgor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir. Nod y CBC yw bod yn fuddsoddwr cyfrifol a bydd yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) wrth fuddsoddi.

### 3.3 Modelau busnes

O dan y safon IFRS 9 newydd mae'r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "model busnes" y CBC i'w rheoli. Mae'r CBC yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli'n fewnol gyda model busnes o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae'r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

### 3.4 Gwrthbartïon cymeradwy

Gall y Cyd- bwyllgor Corfforedig fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o'r gwrthbartïon yn nhabl 2 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau**

| Sector | Terfyn amser | Terfyn gwrthbarti | Terfyn sector |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | 50 mlynedd | Diderfyn | d/b |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | 25 mlynedd | £5m | Diderfyn |
| Buddsoddiadau â sicrwydd * | 25 mlynedd | £5m | Diderfyn |
| Banciau (ansicredig) * | 13 mis | £3m | Diderfyn |
| Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) * | 13 mis | £3m | £6m |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) * | 5 mlynedd | £3m | £15m |
| Cronfeydd marchnad arian * | d/b | £5m | Diderfyn |

*Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â'r nodiadau canlynol.

### 3.5 Isafswm Statws Credyd

Dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor cyhoeddedig isaf yn is nag A- y gwneir buddsoddiadau'r Trysorlys yn y sectorau a nodir â *. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbarti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

### 3.6 Llywodraeth

Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan, lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun *'bail-in'*, ac yn gyffredinol bychan iawn yw'r risg o ansolfedd, er nad ydynt yn ddi-risg. Bernir nad oes gan fuddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU risg credyd oherwydd ei gallu i greu arian ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau gyda dim cyfyngiad am hyd at 50 mlynedd.

### 3.7 Buddsoddiadau â Sicrwydd

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad. Bydd maint ac ansawdd y diogelwch yn ffactor allweddol yn y penderfyniad buddsoddi. Mae bondiau gorchuddiedig a chytundebau adbrynu o chwith gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio rhag '*bail-in'.* Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod gan y cyfochrog y sicrheir y buddsoddiad arno statws credyd, defnyddir yr uchaf o'r statws credyd cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

### 3.8 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (ansicredig)

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in'* petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

### 3.9 Darparwyr cofrestredig (ansicredig)

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

### 3.10 Cronfeydd Marchnad Arian

Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd yr un diwrnod neu fyr rybudd ac anweddolrwydd prisiau isel iawn neu ddim o gwbl trwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddyn nhw'r fantais dros gyfrifon banc o ddarparu gwasgariad ehangach o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa broffesiynol am ffi fach. Er nad oes unrhyw derfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cymryd gofal i arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylif dros amrywiaeth o ddarparwyr i sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

## 3.11 Cyfrifon banc gweithredol

Gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddelio gydag unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau '*bail-in'*, ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun *'bail-in'* na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r CBC yn gallu parhau i weithredu.

## 3.12 Asesu Risg a Statws Credyd

Mae'r CBC yn monitro'r graddfeydd credyd. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

## 3.13 Agweddau ar enw da

Mae'r Cyd- bwyllgor Corfforedig yn ymwybodol y gallai buddsoddi gyda gwrthbartïon penodol, er ei fod yn cael ei ystyried yn ddiogel o safbwynt ariannol yn unig, ei adael yn agored i feirniadaeth, yn ddilys neu fel arall, a allai effeithio ar ei enw da cyhoeddus, ac felly bydd y risg hon yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

## 3.14 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch buddsoddiadau

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008, 2020 a 2022, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei adlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y CBC, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i'r enillion ar fuddsoddiadau ostwng, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

## 3.15 Cyfyngiadau Buddsoddi

Yr uchafswm gellir ei fenthyca i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £5 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o endidau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol.

Mae datguddiadau risg credyd sy'n deillio o fuddsoddiadau ar wahân i'r trysorlys, deilliadau ariannol a balansau sy'n fwy na £500,000 mewn cyfrifon banc gweithredol yn cyfrif yn erbyn y terfynau buddsoddi perthnasol.

Gosodir terfynau hefyd ar reolwyr cronfeydd, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebai broceriaid a gwledydd tramor fel y nodir isod. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun a banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad dramor unigol, gan fod y risg yn amrywio dros lawer o wledydd.

**Tabl 3: Terfynau ychwanegol**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth | £15m fesul rheolwr |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £15m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £5m fesul gwlad |

### 3.16 Rheoli hylifedd

Mae’r Cyd- bwyllgor Corfforedig yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu’r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagolygon eu llunio ar y sail bod benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu ei ymrwymiadau ariannol os oes angen. Mae’r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y CBC.

Bydd y CBC yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf bedwar darparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian) i sicrhau bod mynediad at arian parod yn cael ei gynnal os bydd anawsterau gweithredol mewn unrhyw un darparwr.

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

13 Mehefin, 2025

TEITL: Datganiad Polisi Tal 2025/26

AWDUR: Eurig Huw Williams, Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cyflwyno argymhelliad ar bolisi tâl ar gyfer 2025/26.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Mabwysiadu Datganiad Polisi Tal ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2025/26 (***Atodiad 1***).

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Yn unol â chynnwys y Ddeddf Lleoliaeth 2011, mae'n ddyletswydd statudol ar i bob awdurdod cyhoeddus fabwysiadu datganiad polisi tâl yn flynyddol, fel sail i'w drefniadau ar gyfer cyflogi staff. Mae'r gofyn hwn yn berthnasol i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

3.2. Bu i'r Cyd-Bwyllgor fabwysiadu'r polisi tâl yn gyntaf yn ôl ym Mehefin 2022. Wedi adolygu'r ddogfen honno, daethpwyd i'r casgliad nad oes yna newidiadau i gynnwys y polisi ar hyn o bryd. Cynigir felly bod y datganiad polisi tâl atodol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer 2025/26.

3.3. Mae geiriad y polisi yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd ar adeg ysgrifennu'r papurau hyn y broses o recriwtio prif weithredwr wedi ei chwblhau eto.

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Polisi Tal 2025/26 |

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Fe nodir yn yr adroddiad fod gofyn statudol ar y Cyd Bwyllgor Corfforedig i fabwysiadau ei Datganiad Polisi Tal ei hun. Mae'n ofyn statudol hefyd fod y Cyd-Bwyllgor yn mabwysiadu Datganiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Rwy'n fodlon fod y Polisi Tâl a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y CBC yn gyson gyda'r Gyllideb ar gyfer 2025/26 ac yn cyfarch y gofynion statudol."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

# Polisi Tâl – 2025 / 26

## 1. CYFLWYNIAD

Yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gofyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig baratoi datganiad polisi tâl. Rhaid i'r datganiad hwn gyfleu beth yw polisïau'r Cyd-bwyllgorau ar nifer o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff (neu 'brif swyddogion') a'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiad polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cydnabod pa mor allweddol yw rheoli cydnabyddiaeth ariannol mewn modd teg, cyson a thryloyw ac mae'r penderfyniadau a wneir yn y cyswllt hwn yn greiddiol i sicrhau cyflog cyfartal a chydraddoldeb ar draws y Cyd-bwyllgor.

## 2. POLISI TÂL AR GYFER Y PRIF WEITHREDWR

Bydd y polisi hwn yn diffinio telerau ac amodau gwaith Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor a'r holl staff cyflogedig eraill, a bydd yn cael ei ddiweddaru wrth fabwysiadu strwythur staffio maes o law

Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyflogi prif weithredwr o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr Llywodraeth Leol a bydd hynny wedi'i ymgorffori mewn cytundeb gwaith . Mae'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol yn negodi codiad cyflog blynyddol cenedlaethol (DU) ar sail costau byw ar gyfer y grŵp hwn. Mae gan y sawl a gyflogir o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyd-bwyllgor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol. Mae swydd y Prif Weithredwr ar raddfa rhwng £115,928 hyd at £125,000.

## 3. CYFLOGAU

Ni fydd y Cyd-bwyllgor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w brif weithredwr. Mae amodau a thelerau gwaith lleol y Cyd-bwyllgor yn berthnasol i'r prif weithredwr, yn yr un modd ag ar gyfer gweddill y staff, oni nodir yn wahanol yn y polisïau unigol.

Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyhoeddi cyflogau yn y polisi hwn ac ar ei wefan wrth sefydlu strwythur staffio.

## 4. SWYDDI O DAN LEFEL PRIF WEITHREDWR

Mae polisi tâl Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer y staff sydd yn cael eu cyflogi o dan lefel y Prif Weithredwr yn seiliedig ar bolisi tâl cyfartal a fabwysiadwyd yn wreiddiol gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi mabwysiadu meini prawf Cynllun Arfarnu Swyddi GLPC fel sail i osod graddfa cyflog ar gyfer pob swydd sydd o dan Amodau Gwaith Gweithwyr Llywodraeth Leol. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi ymrwymo i dalu cyflogau yn unol â deddfwriaeth cyflog cyfartal a'r cytundeb "statws sengl" rhwng cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur cydnabyddedig a luniwyd yn 1997. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi penderfynu defnyddio systemau tâl Cyngor Gwynedd fel rhan o'i bolisi tâl ar gyfer ei staff.

Ni fydd y Cyd-bwyllgor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad ei weithwyr.

Mae'r berthynas rhwng tâl prif weithredwr a'i weithwyr eraill wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyd-bwyllgor i recriwtio a chadw'r gweithwyr addas gorau yn ei swyddi amrywiol, tra'n cynnal y pwyntiau gwahaniaethol a arfarnwyd yn yr arfarniad swyddi.

**5. TÂL CYCHWYNNOL**

Mae'r nifer o hicynnau sydd o fewn pob graddfa yn adlewyrchu'r cyfnod posib o ddatblygiad mewn swydd allai fod yn berthnasol i'r unigolion sydd ar y raddfa honno. Bydd aelodau staff yn cael eu penodi i'r pwynt cyflog o fewn y raddfa sydd yn adlewyrchu'r amser fydd ei angen er mwyn datblygu fel eu bod yn gallu ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn llawn.

Yn arferol, penodir pob gweithiwr i'r pwynt cyflog isaf o fewn y raddfa gyflog briodol. Os yw gweithiwr eisoes yn derbyn tâl uwchben y pwynt cyflog isaf neu os oes tystiolaeth ddigonol i arddangos bod y gweithiwr eisoes yn llawn gymwys i gyflawni nifer o agweddau o'r swydd, gellir penodi ar bwynt cyflog uwch o fewn y raddfa gyflog briodol.

Os oes lle o fewn graddfa'r swydd, bydd pob aelod staff yn gymwys i dderbyn hicyn cyflog blynyddol ar y cyntaf o Ebrill, ar yr amod eu bod wedi'u penodi i'w swydd bresennol am fwy na chwe mis cyn y dyddiad hwnnw.

**6. COSTAU AIL-LEOLI**

Mewn sefyllfa pan ei bod yn angenrheidiol i weithiwr ail-leoli er mwyn ymgymryd â swydd, gall y Cyd-bwyllgor, o dan amgylchiadau arbennig, gyfrannu tuag at ad-daliad costau ail-leoli. Mae'r cynllun yn berthnasol i weithwyr a benodir o ganlyniad i hysbyseb neu'n dilyn ad-drefnu mewnol lle bydd rhaid iddynt symud tŷ.

Rhaid i gartref presennol y gweithiwr fod fwy na 20 milltir o'r ganolfan weinyddol cyn y gellir ystyried cais i ad-dalu costau.

O dan yr amgylchiadau hyn, telir cost symud dodrefn ac eiddo yn llawn, yn ddarostyngedig i dderbyn yr isaf o dri dyfynbris ynghyd â chost lawn storio dodrefn hyd at dri mis. Gellir gwneud cyfraniad hyd at £3,270 ar gyfer costau cyfreithiol, ffioedd arwerthwr tai, costau carpedi a llenni a mân gostau symud eraill yn amodol ar ddangos derbynebau perthnasol.

**7. YCHWANEGIAD Y FARCHNAD**

Mae graddfa cyflog pob swydd wedi ei seilio ar gynllun arfarnu swyddi sydd yn cael ei reoli gan Gyngor Gwynedd. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi mabwysiadu'r cynllun hwn ar gyfer pennu cyflogau i'w swyddi (ar wahân i swyddi'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Rhaglen). Golyga hyn fod y system o dalu aelodau staff wedi ei seilio ar gydraddoldeb yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cyflog Cyfartal 1970 ac yn sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau sydd yn ymwneud â thâl. O ganlyniad fe allai unrhyw wyriad o'r system hon greu risg sydd angen ei reoleiddio'n gadarn. Mae'n rhaid bod rhesymau pendant a chlir os am gyfiawnhau unrhyw wyriad o'r trefniant hwn.

Fodd bynnag, fe allai sefyllfa godi pan fo pwysau'r farchnad yn creu problemau recriwtio a/neu gadw staff yng nghyswllt swydd benodol. Gall y Cyd-bwyllgor mewn rhai achosion eithriadol, ac er mwyn denu a/neu gadw unigolyn i swydd benodol, gynnig taliad ychwanegol i'r raddfa gyflog sylfaenol sydd wedi ei fabwysiadu.

Yn y cyswllt hwn dim ond pan fydd tystiolaeth ddogfennol ddigonol o fethiant i recriwtio a/neu gadw aelod staff y bydd ychwanegiad y farchnad yn cael ei ddefnyddio. Nid yw ychwanegiad y farchnad yn ychwanegiad parhaol i gyflog swydd. Os yw'r amgylchiadau sydd yn berthnasol i'r ychwanegiad yn newid, neu os yw aelod staff yn cael ei drosglwyddo gan y Cyd-bwyllgor i swydd arall nad yw'n denu

ychwanegiad y farchnad, yna bydd hawl yr unigolyn hwnnw/honno i'r taliad yn peidio, a bydd yr atodiad yn cael ei atal yn unol â'r rhybudd priodol.

**8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL (YMGYMRYD Â CHYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL)**

Gellir caniatáu taliad ychwanegol pan fo aelod staff yn cytuno i gais i ymgymryd â chyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd y tu hwnt i ddyletswyddau a chyfrifoldebau arferol ei swydd ar sail dros dro. Mae'n rhaid i'r gyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau uwch fod yn sylweddol, yn cael eu harfarnu ar lefel cyflog uwch a thros gyfnod estynedig cyn y gellir cynnig cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol dros-dro.

**9. FFIOEDD PROFFESIYNOL**

Ad-delir un ffi'r flwyddyn i Swyddogion ar gyfer aelodaeth o gorff cydnabyddedig sy'n berthnasol i'w swyddogaeth broffesiynol a phan fo'r aelodaeth hwnnw yn ofyniad gan y Cyngor.

**10. DEFNYDDWYR CAR**

Dynodir pob gweithiwr fel defnyddiwr car achlysurol a thelir ad-daliadau am deithiau busnes ar sail graddfeydd Swyddfa Cyllid y Wlad.

**11. TREULIAU CYNHALIAETH**

Telir ad-daliadau cynhaliaeth, ar gyflwyniad derbynneb, os yw aelod staff yn teithio tu allan i'r Sir ar gyfer brecwast, cinio, te a swper, a hynny hyd at yr uchafswm ar gyfer lwfansau cynhaliaeth. Ar gyfer y staff hynny sydd â'u gwaith yn golygu eu bod yn teithio ar draws mwy nag un Sir e.e. Gwynedd a Môn, diffinnir "y tu allan i'r Sir" fel y tu allan i'r ardal waith arferol.

**12. GWEITHIO ORIAU YCHWANEGOL**

Telir gweithwyr, a gyflogir ar bwynt 22 neu is, ar sail unwaith a hanner o'r cyflog sylfaenol yr awr pan yn gweithio mwy na 37 awr mewn wythnos (trefniadau amgen ar gyfer gweithwyr gyda phatrymau gwaith pan fo'r oriau a weithir ar sail pythefnos/misol neu flynyddol). Caniateir tâl sylfaenol neu amser yn ei le i staff a gyflogir ar bwynt uwch na 22 pan eu bod yn gweithio mwy na 37 awr, neu os yw'r prif weithredwr wedi cymeradwyo'r gwaith ychwanegol ymlaen llaw yna gellir awdurdodi tâl ar sail amser a hanner.

**13. GWEITHIO ORIAU ANGHYMDEITHASOL**

Telir cyflog ar y raddfa sylfaenol am waith, oddi fewn i'r 37 awr, a gyflawnir ar y penwythnos. Telir tâl chwyddedig o dâl sylfaenol a thraean rhan o'r cyflog am waith a gyflawnir rhwng 10 y nos a 6 y bore i weithwyr sy'n gweithio yn ystod yr oriau hynny.

Telir cyflog yn unol â'r cytundeb cenedlaethol ar gyfer gwaith a gyflawnir ar wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol.

**14. LWFANS CYMORTH CYNTAF**

Telir lwfans blynyddol i weithwyr sydd yn gweithredu fel Cymorthyddion Cyntaf dynodedig.

**15. DISWYDDO AC YMDDEOL**

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol y Cyd-bwyllgor yn cael eu gweithredu'n gyfartal a theg i bob aelod staff, waeth beth fo'u graddfa cyflog, eu hoedran neu eu rhyw ac fe'i gweithredir yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol. Nid oes unrhyw eithriadau i brif swyddogion.

**16. CYNLLUN COLLED ARIANNOL**

Diffinnir colled ariannol fel colled o ganlyniad i newid mewn graddfa cyflog ac amodau a thelerau cytundebol. Mae'r Cyd-bwyllgor yn darparu cymorth ariannol i staff sy'n wynebu sefyllfa o golled ariannol (yn sgil ail-strwythuro neu ail-ddyrannu cyfrifoldebau) am gyfnod o ddwy flynedd oddi ar ddyddiad gweithredol y newid i'w pecyn cyflogaeth, gyda 100% o warchodaeth yn y flwyddyn gyntaf a 50% yn yr ail. Bydd y cymorth ariannol hwnnw yn dod i ben ar ôl dwy flynedd oni bo'r aelod staff unigol yn y cyfamser wedi'i benodi i swydd arall ple nad yw o/hi yn wynebu'r golled ariannol.

**17. AIL-GYFLOGI**

Bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei r(h)inweddau ei hun a bydd yn penodi gyda'r bwriad o gyflawni'r effeithlonrwydd gorau ar gyfer y gwasanaeth a'r gwerth gorau ar gyfer ei drethdalwyr. Byddai'r fath benodiad, os byddai'n cael ei wneud, yn destun unrhyw leihad a nodir yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Yn unol â deddfwriaeth trethiant, rhaid i reolwyr sicrhau ym mhob achos fod unrhyw drefniant i dalu unigolyn am waith trwy 'gytundeb o wasanaeth' wedi bod yn destun prawf statws cyflogaeth fel sy'n ymddangos ar wefan CThEM, a cynhelir y prawf yma yn hollol wrthrychol.

**18. PENODI PRIF SWYDDOG NEWYDD (CYFLOG O £100,000 A THROSODD)**

Bydd y Cyd-bwyllgor llawn yn cymeradwyo unrhyw newid i becyn cyflog swydd o'r fath cyn yr eir ati i recriwtio.

Hysbysebir yn allanol ar gyfer llenwi swydd o'r fath.